

ISSN 2053-5171
Rhifyn 17
Hydref 2020

Herio Materion Crefyddol

John Holdsworth

ar Y Goeden Deulu: Pwy
yw'r Baban Iesu?

Martyn Percy

ar Crefydd yn mynd yn Feiral:
Chred mewn
Pandemig

David Wilkinson

ar Stephen Hawking a
Bydysawd heb Dduw?

C. Mark Harrison

ar A yw Sail Enetig Bywyd ar
y Ddaear yn gwneud Bywyd
ar ôl Marwolaeth yn
Beth Ambosibl?

Phra Nicholas Thanissaro

ar Fwdhaeth a Thrais

Samuel Tranter

ar Rhai Tueddiadau mewn
Eco-ddiwinyddiaeth

Herio Materion Crefyddol

Cefnogi Astudiaethau Crefyddol Safon Uwch a thu hwnt

Rhifyn 17 Hydref 2020

Cynnwys

Y Goeden Deulu: Pwr yw'r Baban Iesu? John Holdsworth	2
Crefydd yn mynd yn Feiral: Ffydd a Chred mewn Pandemig Martyn Percy	8
Stephen Hawking a Bydysawd heb Dduw? David Wilkinson	16
A yw Sail Enetig Bywyd ar y Ddaear yn gwneud Bywyd ar ôl Marwolaeth yn Beth Amhosibl? C. Mark Harrison	22
Ar Fwdhaeth a Thrais Phra Nicholas Thanissaro	29
Rhai Tueddiadau mewn Eco-ddiwinyddiaeth Samuel Tranter	35

Golygydd

Yr Athro Jeff Astley (Prifysgol yr Esgob Grosseteste, Lincoln)

Golygydd Cymraeg a Golygydd Rheolaethol

Dr Tania ap Siôn (Prifysgol yr Esgob Grosseteste, Lincoln, Canolfan y Santes Fair a Sant Silyn)

Ymgynhorwyr Golygyddol

Yr Athro Leslie J. Francis (Prifysgol Warwick)

Dr Ian Jones (St Peter's Saltley Trust)

Libby Jones (Canolfan San Silyn, Wrecsam)

Yr Athro William K. Kay (Prifysgol Caer)

Yr Athro David Lankshear (Prifysgol Warwick)

Phil Lord (Arweinydd System, GwE)

Yr Athro Peter Neil (Prifysgol yr Esgob Grosseteste)

Yr Athro Stephen Parker (Prifysgol Worcester)

Y Gwir Barchedig Ddr Walker (Prifysgol of Warwick)

Dyluniwyd gan Phillip Vernon

Cyfieithiad gan Sioned Jones

Herio Materion Crefyddol Religious Issues

Canolfan y Santes Fair a Sant Silyn

Llys Onnen

Abergwyngregyn

Gwynedd

LL33 0LD

Ffôn: 01248 680131

E-mail: smc.taniaapsion@gmail.com

<http://www.st-marys-centre.org.uk/>

St Peter's Saltley Trust

Grays Court

3 Nursery Road

Edgbaston

Birmingham B15 3JX

Telephone 0121 427 6800

E-mail: director@saltleytrust.org.uk

<https://www.saltleytrust.org.uk/>

Canolfan San Silyn

Tŷ'r Coleg

Rhes y Deml

Cymru,

Wales

LL13 8LY

E-bost: tania.apsion@bishoptg.ac.uk

<https://stgilescentre.org/cy/>

Caiff fersiwn Gymraeg *Herio Materion Crefyddol* ei noddi a'i reoli gan Ganolfan San Silyn Wrecsam – <https://stgilescentre.org/>

Mae *Herio Materion Crefyddol* yn gyfnodolyn ar-lein, mynediad agored am ddim a luniwyd i gefnogi athrawon a myfyrwyr sy'n dilyn Astudiaethau Crefyddol Safon Uwch, gan ddod ac ysgolheictod ac ymchwil diweddar a pherthnasol o'r Brifysgol i'r ystafell ddisbarth lefel A. Os oes unrhyw bynciau yr hoffech eu gweld yn cael eu cynnwys yn y cyfnodolyn, mae croeso i chi gysylltu â ni.

Y Goeden Deulu: Pwy yw'r Baban Iesu?

John Holdsworth

Mae penodau cyntaf Efengyl Mathew yn ffordd arddulliedig o adnabod Iesu, yn ôl y traddodiadau cydnabyddedig. Mae hyn yn arbennig o wir am y bennod gyntaf nad yw'n cael fawr o sylw, sy'n sôn am ei linach. Er mwyn gwerthfawrogi'r Efengyl yn llawn, mae angen i ni ddadansoddi'r adran hon, gan gofio pwy oedd cynulleidfa wreiddiol yr Efengyl. Caiff Iesu ei gyflwyno fel mab i Abraham, mab i Ddafydd, a'r Meseia, y mae ei ddyfodiad ar adeg addawol ar fin gosod cyfeiriad newydd yn hanes crefydd.

Cysylltiadau Manyleb:

EDEXCEL Papur 3: Astudiaethau'r Testament Newydd: Cyd-destun cymdeithasol, hanesyddol a chrefyddol y Testament Newydd 1.1 Y broffwydoliaeth am y Meseia (1) (b) Arwyddocâd y disgwyliadau hyn a'u heffaith ar destunau'r Testament Newydd, yn cynnwys testunau prawf Mathew yn storïau'r geni ac i ddeall testunau'r Efengyl EDUQAS Eifen 1, Opsiwn A: Astudiaeth o Gristnogaeth Thema 1: Ffigyrau crefyddol a thestunau cysegredig, Gwybodaeth a dealltwriaeth o grefydd a chred A. Iesu - ei eni: ... Materion i'w dadansoddi a'u gwerthuso. . . fel: • Pwysigrwydd cymharol beirniadaeth olygu ar gyfer deall naratifau'r geni yn y Beibl

Hefyd:

OCR Datblygiadau mewn meddwl Cristnogol (H573/03): 2. Seiliau, Iesu Grist yn y cnawd, Awdurdod Iesu Grist fel mab Duw

Yn y Gorllewin rydym yn gyfarwydd â'r hyn y gellid ei alw yn sgwrsio effeithlon. Os ydym yn cyfarfod rhywun yn y stryd gallell ofyn yn sydyn sut maen nhw, o ran arfer yn unig (dydyn ni ddim wir eisiau clywed ateb hir am sut maen nhw mewn gwirionedd), cyn symud ymlaen at

sylwedd y sgwrs. Nid felly yn y Dwyrain Canol. Mae'n rhaid mynd trwy gyfres hir o gwestiynau ac atebion cyn y gall y sgwrs ddechrau.

Nid dim ond yn y Dwyrain Canol mae hyn yn digwydd. Pan ddechreuais i gerdded o amgylch y dref fechan yn ne

Y Goeden Deulu: Pwy yw'r Baban Iesu?

Cymru lle'r oedd fy ngwraig yn byw, sylweddolais yn gyflym mai un cyfarchiad cyfarwydd oedd 'Pwy alla'i ddweud ydych chi?' Gyda lwc byddai fy ateb yn fy nghysylltu â rhywun roedden nhw'n adnabod ac yn ymddiried yn ei achau. Roedd dweud 'gŵr merch hynaf Doug Thomas' yn gwneud y tro yn iawn. Roedd hynny'n rhoi cliwiau nid yn unig i'r berthynas ffurfiol, ond hefyd i'r math o berson y gallwn fod. Gallai cwestiynau pellach ddilyn, fel ble'r oedden ni wedi cwrdd, beth oedd fy ngwaith, o ble roeddwn i'n dod ac oeddwn i'n siarad Cymraeg. Dim ond ar ôl setlo ar y pethau hyn i gyd y gallai'r sgwrs ddechrau.

Yn ôl Mathew

Mae dechrau efengyl Mathew ychydig fel y gyfres honno o atebion i'r cwestiwn 'Pwy alla'i ddweud yw Iesu?' Yn wahanol i Efengyl Marc, sy'n ein taflu i mewn i weinidogaeth Iesu ym mhennod 1 ar ôl y cyflwyniad byrraf posibl, nid yw Efengyl Mathew yn dechrau ar y weinidogaeth yn iawn tan 4:17. Y cyfan sy'n digwydd cyn hynny, mewn gwirionedd, yw ateb cwestiwn y darlennydd, 'I bwy ydw i'n cael fy nghyflwyno?' Felly fel dywed France:

by the time the reader comes to 4:17 he is well prepared to see this Jesus not just as a preacher of God's message but as the Messiah to whom the whole Old Testament revelation pointed forward, and even more than that, as the Son of God. (France, 1985, p. 74)

Mae'r penodau blaenorol hynny yn cynnwys hanes estynedig am fedydd Iesu, yn cymryd pennod 3 i gyd, gyda 'phregeth' sarhaus i'r Phariseaid a'r Sadwceaid (adnodau 7-12), a fydd yn nodwedd o'r Efengyl. Mae rhan gyntaf pennod 4 yn disgrifio myfyrio galwedigaethol Iesu ar ei rôl 'yn yr

anialwch'. Mae hynny'n gadael penodau 1 a 2. Mae'r rhan fwyaf o bennod 2 yn ymdrin ag ymweliad y seryddion â'r baban Iesu. Bydd yr erthygl hon yn ymdrin â'r hyn y mae pennod 1, pennod allweddol mewn unrhyw lyfr, yn ei ddweud, mewn ateb i'r cwestiwn am bwy yw Iesu, ac yn arbennig, beth mae'r rhan fwyaf o'r bennod honno, penodau 1-17, yn ceisio'i ddweud wrthym. Dim ond pennod 2 mae Drama'r Geni yn ei defnyddio fel arfer, ac mae gwasanaethau naw llith a charol yn rhoi'r argraff fod yr Efengyl yn dechrau yn 1:18, ond mae'r 17 adnod gyntaf hynny yn 'orlawn o bersbectif diwinyddol Mathew' (Senior, 1998, p. 39). Maen nhw'n gosod cyd-destun a fframwaith deongliadol i bopeth sy'n dilyn.

Pwy sy'n gofyn?

Mae'n werth nodi fod yr atebion i'r cwestiynau am bwy ydyn ni yn dibynnu i raddau ar bwy sy'n gofyn. Mae gan y rhan fwyaf ohonom sawl bywgraffiad. Mae gen i fywgraffiad teulu, bywgraffiad academaidd (neu 'CV') a bywgraffiad eglwys fel y gwelech mewn Cyfeiriadur Esgobaethol. Mae gen i fywgraffiad mwy cyffredinol hefyd fel y gwelech ar siaced lwch llyfr. Mewn rhai sefyllfaoedd byddai 'dwi'n cefnogi Leeds United' yn arwydd pwysig o'm gwir werth a'm hunaniaeth. Yn achos Mathew, mae'r cwestiwn yn cael ei ateb fel pe bai'r gynulleidfa wedi gofyn y cwestiwn. Rydym yn cael awgrymiadau amdany'n nhw drwy'r Efengyl.

Mae esbonwyr yn aml yn defnyddio'r arwyddion syml 'Iddew' a 'Chenedl-ddyn' i ddisgrifio'r cynulleidfaeodd Cristnogol cynnar, ond mae'r rhain yn annigonol wir. Fel mae'r Actau pennod 2 yn dweud wrthym, mae Iddewon yn dod o bob man ac yn siarad sawl iaith. Y cyfan mae 'Cenedl-ddynion' yn dweud wrthym yw bod pobl ddim yn Iddewon. Mae cyfeiriadau

Y Goeden Deulu: Pwy yw'r Baban Iesu?

Ilythyrau Paul yn rhoi rhyw awgrym i ni am ba mor amrywiol y gallai eu lleoliadau a'u diwylliannu fod. Yr hyn y gallwn ei ddweud yn bendant am gynulleidfa Mathew yw ei bod yn amrywiol. Mae llawer o'r deunydd sy'n unigryw i Mathew yn sôn am yr amrywiaeth hwnnw: y gwenith a'r efrau, y defaid a'r geifr, y morwynion doeth a ffôl. Roedd yn sicr yn cynnwys pobl o ddiwylliant a chefnidir Iddewig. Ond mae Mathew yn awyddus iawn i anwybyddu unrhyw deimlad o hawl arbennig y gallai'r bobl hynny ei ddangos o fewn y gynulleidfa. Cred ef fod y cyfamod cychwynnol a sefydlodd Israel wedi cael ei reoleiddio a'i wyrddroi gan sefydliad crefyddol allan o bob adnabyddiaeth, a bod cymdeithasol gychwynnol o'r rhai rhydd wedi troi yn fath o orthrwm crefyddol. Mae ei neges i'r dethol rai crefyddol yn ddigyfaddawd. Mae'n rhaid i'w gyflwyniad i'r Efengyl wneud hyn yn glir.

Gall ymddangos fel honiad enfawr i'w wneud, y gall rhestr o enwau fod yn 'ddiwinyddol orlawn', fel yna, neu y gallai fod yn fframwaith deongliadol i'r hyn sy'n dilyn, ond mae'n honiad rwyf yn dymuno'i ddilyn. Geiriau cyntaf yr Efengyl yw 'Dyma restr achau (genesis) Iesu Grist'. Defnyddir y gair 'genedigaeth' (genesis), yn 1:18, ond mae'r geiriau wedi'u trosi'n wahanol. Mae trafodaeth ynghylch a yw defnydd y gair yn 1:1 yn cyfeirio at yr hyn sy'n dilyn yn syth, neu'n fwy eang. Fodd bynnag, mae'n rhaid bod y cyfeiriad at genesis yn awgrymu llyfr cyntaf y Beibl Hebraeg, yn yr un ffordd ag y mae Efengyl Ioan yn dechrau gydag ymadrodd sy'n awgrymu dechreuadau'r un traddodiad crefyddol. Gwelir y geiriau 'hanes cenhedlu (genesis) y ddaear, sy'n rhoi'r enw i'r llyfr yn yr Hen Destament, mewn gwirionedd, yn Genesis 2.4 lle mae'n cyfeirio at ddechrau'r 'ddaear a nefoedd ac yn 5:1, lle mae'n cyfeirio at darddiad bodau dynol. Dyma ddechreuad

newydd. Cred Hare y gellir ei gymharu â theitl ffilm Hollywoodaidd, rhywbeth tebyg i 'Genesis 2: A New Beginning with the Coming of the Christ' (Hare, 1993, p. 7).

Teitlau

Yn Mathew 1:1, mae Iesu'n cael tri theitl sy'n cyfeirio at wahanol fathau o fywgraffiad. Mae'n fab i Abraham, sy'n rhoi hunaniaeth ethnig iddo; yn fab i Dafydd, sy'n ychwanegu at hynny hunaniaeth frenhinol; a'r Crist neu'r Meseia, sy'n ei osod mewn disgwyliad crefyddol. Mae mab Abraham, mewn cyddestun, yn deitl eironig. Roedd Iddewiaeth genedlaetholgar a'i chyfatebiaeth grefyddol yn ymfrostio 'Y mae gennym Abraham yn dad'. Gwelwn ail-ddehongli hyn yn 3:9. Gall Abraham gael llawer o feibion. Nid oes hawl Iddewig. Yr un person sydd wir yn cynrychioli'r cyfamod a wnaed gydag Abraham yw Iesu, a phan mae'n cadarnhau cyfamod newydd yn ei waed (26:28), mae'n dweud ei fod 'dros lawer' ac nid ychydig. Mae mab Dafydd yn honiad a fydd hefyd yn cael ei amlygu yn y rhestr sy'n dilyn, ac mae'n gwneud y pwynt fod Iesu yn debyg o fod yn frenin. Cred Case-Winters fod yr honiad hwn yn cael ei egluro ym mhennod 2, a bod y darlennydd i gymharu brenhiniaeth Iesu gydag un Herod. 'Nid oes gan Herod waed brenhinol. Nid yw hyd yn oed yn gwbl Iddewig. Nid yw'n fwy na chadlywydd milwrol a welodd ei gyfle pan gyfetholwyd ef gan y Rhufeiniaid ar gyfer eu hagenda gwleidyddol nhw' (Case Winers, 2015, p.23). Caiff brenhiniaeth Iesu ei datgan yn eironig yn Mathew 27:11, 29, 37, 42. I'w ddatgan yn Feseia mae'n rhaid sefydlu gyntaf mae ef yw yr un eneniog (ystyr Hebraidd y gair Meseia), ei fab arbennig; ond hefyd rhoi awgrym am ei swyddogaeth fel yr un a fyddai'n dechrau teyrnas, neu reolaeth deyrnasol, Duw. Felly pan rydym yn ei

Y Goeden Deulu: Pwy yw'r Baban Iesu?

glywed yn gwneud hynny, fel utgorn ei weinidogaeth yn 4:17 a 4:23, nid yw'n ddim syndod.

Rhifau

Mae'r teimlad hwnnw o ddisgwyliad am y deyrnas yn perthyn mewn cyd-destun ehangach y cyfeirir ato'n gyffredinol fel 'eschatolegol'. Mae'r term hwn yn cyfeirio at ddiwinyddiaeth hanes sy'n credu, fel y creodd Duw'r drefn naturiol, felly hefyd y 'creodd' hanes dynol gan ei gynllunio a'i ddylunio. Yn gyfleus, roedd y dyluniad hwnnw'n golygu rhannu yn sawl oes. Y peth allweddol am yr oes nesaf yw y byddai'n gwrthdroi'r anghyfiawnderau a'r dioddefiannau a brofwyd yn yr un bresennol, ac felly roedd gan y syniad o oes newydd gyda'i fynegiant diriaethol mewn teyrnas newydd, gyda brenin eneiog newydd fel Dafydd, apêl boblogaidd eang. Roedd y rheiny oedd yn honni fod ganddynt wybodaeth arbennig am gynllun Duw ac yn cymryd diddordeb arbennig ynddo, yn credu y gellid dod o hyd i gliwiau am fwriad Duw 'wedi cuddio' mewn rhai rhifau arwyddocaol. Er enghraifft, nifer y dyddiau mewn wythnos oedd saith, felly roedd hynny'n arwyddocaol. Credid bod saith yn rhif oedd yn dynodi cwblhad neu berffeithrwydd yng nghynllun Duw (cf. Datguddiad 13:17, 18) lle mae chwech yn cynrychioli'r hyn sy'n esgus bod yn Dduw ond nid ydyw). Roedd hyn yn cael ei gymhlethu ymhellach gan y ffaith fod gan lythrennau Hebraeg, fel rhifau Rhufeinig, werth rhifol. Felly gellid 'darganfod' codau i gael prawf pellach o fwriadau Duw.

Fel yna mae'r cefndir diwylliannol i drefniant Mathew o'i linach. Caiff ei gyflwyno fel cyfres o dri lluosai ag un deg pedwar. Dim ond 3 llythyren sydd yn yr enw 'David' mewn Hebraeg (nid oes llafariaid mewn Hebraeg), 'DVD'. Gwerth D yw pedwar a V yw chwech; felly cyfanswm David yw 14 hefyd. I rai

clustiau Iddewig byddai hyn yn ddadl wyddonol, ac yn sicr yn un grefyddol. Tri lluosai 14 yw chwech lluosai saith. Mae'r seithfed dydd ar fin gwawrio. Mae dechreuad newydd cwblhad Duw yn cael ei gyhoeddi yn yr enedigaeth yma.

Parheir â'r cyflwyniad arddulliedig hwn drwy gydol penodau 1 a 2 mewn dull mwy storïol. Mae'r rhain yn dangos parhad â'r Hen Destament, yn sicr, ond yn y bôn maent yn dangos mai un stori yw stori Duw am y byd a chymdeithas, sydd bellach yn cyrraedd ei huchafbwynt.

Iddew a Chenedl-ddyn

Hyd yma, byddai hyn fel pe bai'n ffafrio diwylliant Iddewig, ond drwy edrych yn fwy agos ar yr enwau yn y fframiau gwelir bwriad mwy tanseiliol. Yn anarferol, mae'r rhestr yn cynnwys pum menyw. A hyd yn oed yn fwy anarferol, mai pedair ohonynt naill ai'n dramorwyr neu â chysylltiadau tramor. Mae'n fwy na thebyg mai Cananeaidd oedd Tamar a Rahab; Moabiad oedd Ruth, ac roedd Bathseba yn briod â Hethiad. Y bumed yw Mair. Mae gan y pedair gwraig a enwyd rywbeth arall yn gyffredin. Roedd Tamar wedi esgus bod yn butain, gan gysgu gyda'i chyn dad-yng-nghyfraith, er mwyn sefydlu ei hawl am gyfiawnder (mae'r stori lawn yn Genesis pennod 38). Caiff Rahab ei galw'n butain, ond cafodd ei hanrhydeddu oherwydd iddi guddio ysbiwyr o Israel a ddaeth i wneud rhagchwiliad yn Jericho, ac felly achub eu bywydau (mae'r stori yn Joshua pennod 2). Mae enw da i Ruth yn gyffredinol am iddi wrthod gadael ei mam-yng-nghyfraith weddw, serch hynny fe hudodd hi Boas (y stori yn Ruth pennod 3) ac roedd Bathseba yn feistres i'r Brenin Dafydd (y stori yn 2 Samuel pennod 11).

Yna mae gennym Mair. Gallai fod sawl dehongliad i'r dilyniant hwn. Gallai fod yn ffordd o esbonio'r ffaith fod Mair wedi beichiogi y tu allan i briodas, gan fod Duw

Y Goeden Deulu: Pwy yw'r Baban Iesu?

wedi gweithio drwy fenywod pechadurus eraill. Gallai fod yn ffordd o bwysleisio pa mor anghyffredin oedd yr enedigaeth. Neu ddim ond fod yr hanes yn cael ei adrodd o safbwynt Joseff yn bendant. Neu gallai fod yn ffordd gynnil o'n hatgoffa fod gan hyd yn oed y Brenin Dafydd waed estron yn ei wythiennau, a bod Duw wedi gweithredu drwy ymchwiliad am gyfiawnder, haelioni, teyrngarwch ac aberth menywod, a bod Mair yn sefyll yn y llinell odidog honno. Mae llinell olaf yr achau yn siom fawr; oherwydd gwelwn nad llinach yw hwn yn yr ystyr arferol. Achau Joseff sydd yma, sydd heb gysylltiad biolegol â Iesu. Llinach 'cyfreithiol' yw hwn (France, 1985, p. 80).

Ac yn ôl Luc?

Mae coeden deulu Mathew yn wahanol i un Luc mewn sawl ffordd bwysig. Mae Luc yn gosod ei goeden deulu yn syth cyn hanes y temtasiynau, lle mae Iesu yn darganfod drosto'i hun pwy ydyw (Luc 3:23-38). Mae llinach Luc yn mynd am yn ôl o Iesu, heb strwythur rhifol pendant. Ar ôl Dafydd, mae ganddo 42 o genedlaethau o'u cymharu â 27 Mathew. Mae'n gorffen nid gydag Abraham, ond gydag Adda, 'mab Duw', gan wneud pwynt am yr hollgyffredinol yn ogystal â chyflwyno'r teitl hwn. Nid yw ei linach yn cynnwys unrhyw ferch; ond mae ganddo

enwau Dafydd ac Abraham yn gyffredin, yn ogystal â'r mwy diweddar a'r parchus Sorobabel.

Mae coeden deulu Luc yn llai cynnil, felly, ond mae hefyd yn caniatáu am enedigaeth wryfol drwy ddweud fod Iesu yn fab i Joseff 'yn ôl y dybiaeth' (Groeg: enomizeto, goddefol amherffaith).

Casgliad

Os ydym yn gwneud rhestr o'r pethau rydym yn eu dysgu neu'n eu disgwyl o baragraff agoriadol Efengyl Mathew, mae'n creu argraff. Daeth yr amser. Mae'r oes ar fin newid. Mae un eneiog Duw yma i roi cychwyn arni. Ef yw Mab Duw (thema sy'n cael ei dilyn yn syth yn 2:15, 3:17), ac yn olyniaeth y Brenin Dafydd, y Brenin olaf i gael Teyrnas unedig. Gellid disgwyl i'w enedigaeth fod yn anarferol, oherwydd dyna'r ffordd y mae Duw yn gweithio. Mae'n sefyll mewn hanes diwylliannol Iddewig ond mae cynllun Duw yn fwy eang, cynhwysol ac annisgwyl na'r hyn y byddai rhywun yn ei ddisgwyl fel arfer. Fel mae'r Efengyl yn datblygu, felly bydd y themâu hyn hefyd, yn cyrraedd eu diwedd glo yn hanes y dioddefaint. Nid yw Mathew yn gadael ei ddarllenwyr ar bigau'r drain ynghylch pwy yw'r baban Iesu. 'Mae Mathew wedi rhoi ei gardiau diwinyddol ar y bwrdd' (France, 1985, p. 74).

Pwyntiau trafod

1. Ydych chi'n meddwl y gallwn ni ddeall stori'r geni yn iawn, oni bai ein bod wedi deall pwysigrwydd y llinach?
2. Gan gymharu cyflwyniad Mathew ag un Marc, sut mae cyflwyno Iesu cyn iddo ddod y oedolyn yn ychwanegu at ein dealltwriaeth ohono?
3. Gan gymharu cyflwyniad Mathew ag un Luc, mae'n ymddangos nad oes ganddynt lawer yn gyffredin. Ydi hyn, neu a ddylai fod, yn broblem i Gristnogion?
4. Ydych chi'n meddwl fod Dramâu'r Geni sy'n cyfuno hanesion Mathew a Luc yn cymhlethu pwy yw Iesu neu'n ei gwneud yn gliriach, i gynulleidfaoedd heddiw?

Cyfeiriadaeth

Case-Winters, Anna. (2015). *Matthew* (Belief Theological Commentaries), Louisville, Kentucky: Westminster John Knox Press.

France, Richard T. (1985). *Matthew* (Tyndale New Testament Commentaries). Nottingham: InterVarsity Press.

Hare, Douglas R.A. (1993). *Matthew* (Interpretation Commentaries). Louisville, Kentucky: Westminster John Knox Press.

Senior, Donald. (1998). *Matthew* (Abingdon New Testament Commentaries), Nashville, Tennessee: Abingdon Press.

Ar hyn o bryd mae Dr John Holdsworth yn Gyfarwyddwr Gweinidogaeth i Esgobaeth Anglicanaidd Cyprus a'r Gwlf. Bu'n ddarlithydd mewn Astudiaethau Beiblaidd a Chyfathrebu ym Mhrifysgolion Abertawe a Chaerdydd a bu'n Bennaeth Coleg Mihangel Sant, Llandaf, Athrofa yr Eglwys yng Nghymru. Mae wedi cyhoeddi sawl llyfr ar themâu Beiblaidd a chyfathrebu: yn fwyaf diweddar, Everyday Conversations with Matthew (SCM Press, 2019).

Crefydd yn mynd yn Feiral: Ffydd a Chred mewn Pandemig

Martyn Percy

Mae'r erthygl hon yn rhoi trosolwg o hanes clefydau pandemig – yr effaith amlwg ar gyfraddau marwoldeb ac amodau byw, a'r dymuniad dilynol am drefn wleidyddol a chymdeithasol newydd gydag aiddosbarthu grym a chyfoeth – a sut mae hyn yn croestorri â theodiciaeth. Mae'r erthygl yn edrych ar ddealltwriaethau'r ysgrythur o sut mae clefydau pandemig yn ffurfio ffydd ac yn ennyn y syniad o 'grefydd feiral' gan ddangos y dyngarwch sydd yn gweld y tu hwnt i ystadegau.

Cysylltiadau â manylebau:

AQA Eifen 1: Athroniaeth crefydd a moeseg, Adran A: . . . Drygioni a dioddefaint;

Adran B: Moeseg a chrefydd, . . . Materion bywyd a marwolaeth dyn; Eifen 2:

Astudiaeth o grefyddau a deialogau, Adran A: Astudiaeth o grefyddau – [pob opsiwn ffydd] . . . Crefydd a seciwlaiaeth

EDEXCEL Papur 1: Athroniaeth crefydd (9RS0/01) . . . Problemau drygioni a dioddefaint; Papur 4: Astudiaeth o Grefydd (9RS0/4A-4F), pob Opsiwn . . . credoau am farwolaeth, y bywyd tragwyddol, yr hunan, ac ystyr a phwrpas bywyd; ymatebion i ddiodeffaint, her seciwlaiaeth

EDUQAS Eifen 1: Astudiaeth o Grefydd [pob opsiwn]: . . . credoau yr hunan, marwolaeth a'r bywyd tragwyddol, credoau am ystyr a phwrpas bywyd; her seciwlaiaeth;

Eifen 2: Athroniaeth Crefydd Thema 2: Heriau i gred grefyddol – problem drygioni a dioddefaint

OCR Athroniaeth crefydd (H573/01): Problem drygioni a dioddefaint; Datblygiadau mewn meddwl crefyddol (H573/03-07): credoau am yr hunan, marwolaeth a'r bywyd tragwyddol; credoau am ystyr a phwrpas bywyd, seciwlaiaeth

Plâu a chlefydau pandemig

Ar 15 Awst 1665, cyhoeddwyd ystadegau wythnosol marwolaethau yn Llundain. Roedd *Biliau marwolaeth* wedi cael eu cyhoeddi'n barhaus ers 1603 gan Gymdeithas Anrhydeddus y Clercod Plwyf. Erbyn 1665, roedd gan Lundain

130 o blwyfi ac mae'r *Biliau marwolaeth* hyn yn rhoi cipolwg diddorol iawn ar sut roedd pobl yn gweld iechyd, diogelwch a marwoldeb. Ar 15 Awst 1665 cofnodir fod wyth o bobl wedi marw o 'excessive wynde', un person o 'lethargie', un o fod

Crefydd yn mynd yn Feiral: Ffydd a Chred mewn Pandemig

yn 'frighted' (ac roedd mwy yn yr wythnosau cynt), un arall o 'meagrome', dros gant oherwydd 'teeth', pymtheg o 'wormes', chwech o 'thrush' – a dros chwe mil a hanner o rywbeth a elwid y 'pla'. Mae'r gofrestr yn ychwanegu fod 168 o fedyddiadau wedi bod yn yr un wythnos hefyd.

Cofnododd pla Llundain yn 1665-6 bron i 70,000 o farwolaethau, er mae'n debyg fod yr union nifer dros 100,000. Byddai dweud fod pla Llundain – y 'Pla Du' neu'r 'Great Plague' – yn ddiistriol, yn tanddweud y mater. Mewn deunaw mis yn unig, bu farw bron i chwarter pobl Llundain o'r pla du. (*bubonic plague*). Rydym wedi tueddu i edrych yn ôl ar y pandemig trasig hwn yn Llundain yr ail ganrif ar bymtheg drwy sbectol niwlog. Ar y cyfan, ychydig iawn o sylw mae'n harweinwyr gwleidyddol heddiw wedi'i roi i'r pethau tebyg a wnaeth Llundain yn ardal gaeëdig yn 1665-6, a'r rhai sy'n gysylltiedig â Covid-19 heddiw.

Mae llyfr Frank Snowden *Epidemics and society: From the Black Death to the present* (2019) yn dangos sut mae'r cynnydd anferth mewn trefoli a theithio ar draws y byd wedi'n gwneud yn agored i bandemigau newydd. Roedd yr arwyddion rhybudd yma'n barod: HIV/AIDS, 'ffliw adar', Zika, Sars, Ebola - i enwi dim ond rhai. Roeddem wedi tueddu i feddwl fod ein cymdeithasau datblygedig ni yn rhoi imiwedd i ni i afiechydon cymharol ddiweddar fel polio, y diciâu a 'ffliw Sbaen'. Yn wir, mae rhai o'r afiechydon hyn wedi codi eu pennau eto yn yr unfed ganrif ar hugain. Mae tlodi, ac amodau byw cyfyng, tlawd, afiach yn llefydd magu i feirysau newydd a bacteria. Mae malaria yn ffynnu mewn amgylcheddau lle ceir dŵr llygredig, llonydd. Mae dal yn lladd pum miliwn o blant y flwyddyn o dan ddwy oed.

Mae llyfr Snowden yn cadarnhau'r hyn a wyddom drwy astudiaethau eraill mwy

poblogaidd o iechyd Lloegr yn y canol oesoedd. Mae Jack Hartnell (*Medieval bodies: Life, death and art in the Middle Ages*, 2018), John Hatcher (*The Black Death*, 2008) ac Ian Mortimer (*The time traveller's guide to medieval England*, 2009) i gyd yn rhoi golwg ddiddorol ar sut y bu i bandemig y pla ar y pryd ail-drefnu'r gymdeithas ganoloesol – yn wleidyddol, ariannol a chymdeithasol. Er enghraifft, gallai pobl a oedd wedi eu geni yn daeog ffeindio eu bod yn fuddiolwyr ac yn etifeddion. Roedd plâu yn aiddosbarthu grym ac arian; yn herio awdurdodau a realiti cymdeithasol y cyfnod; roeddent yn procio cydwybod newydd, ac yn ail-drefnu blaenoriaethau. Yr un peth cyffredin ar draws yr astudiaethau hyn yw nad oes llawer y gall rhywun ei wneud i ddianc rhag clefydau pandemig a'u *canlyniadau* cymdeithasol ac economaidd. Pan gawn ein hwynebu â realiti, rydym yn aml yn ei wadu. Mae'r niferoedd sy'n cael eu cyhoeddi yn awr am Covid-19 yn cael yr un effaith ag y gwnaeth y *Biliau marwolaeth* yn 1665. Y tu mewn, mae'r rhan fwyaf o bobl yn dweud wrth eu hunain, fel y gwnaethant yn y canrifoedd a fu, 'wnaiff o ddim digwydd i mi'. Efallai.

Theodiciaeth a dioddefaint

Gallai synnu rhai darllenwyr i ddysgu fod y berthynas rhwng crefydd a feirysau mor hen â phechod. Mae'r rhan fwyaf o draddodiadau crefyddol wedi mabwysiadu safbwyntiau ar wreiddiau drygioni, anffodion ac afiechyd – safbwyntiau rydym yn eu galw'n 'theodiciaethau'. Mae'r rhan fwyaf o destunau cysegredig yn cynnwys straeon, damhegion, chwedlau i'n dysgu neu athrawiaethau sy'n ceisio mynd i'r afael â'r berthynas rhwng Duw (neu'r duwiau), iechyd, cyfanrwydd, afiechyd a marwolaeth. Er nad oedd yr hen grefyddau yn gallu gwahaniaethu rhwng

Crefydd yn mynd yn Feiral: Ffydd a Chred mewn Pandemig

afiechydon genetic, bacterol neu feiral, roedd achosion ac effaith afiechyd ac anabledd yn destun cryn ddyfalu. Mae'r Hen Destament yn sôn am nifer o fathau o blâu, ac am Dduw fel ffynhonnell y rhain, at ddibenion cosbi a barnu.

Yn y Testament Newydd, mae Iesu'n cael ei holi am iachau dyn dall (Ioan 9), gyda'r drafodaeth yn troi at pam fod y dyn yn ddall (gydag Iesu ddim yn poeni fawr am yr achos) ac yna'n gofyn a yw dallineb ysbrydol yn waeth. Mae dod o hyd i ystyr diwinyddol ynghanol dioddefaint yn hen drosiad mewn llenyddiaeth. Er enghraifft, yn *The Bridge of San Luis Rey* gan Thornton Wilder (1927), rydym yn cyfarfod mynach Ffransisgaidd sy'n myfyrio ar farwolaethau ymddangosiadol ddiystyr pump o bobl a syrthiodd oddi ar bont. Beth yw pwynt hyn?, mae'n meddwl; Ble mae pwrpas Duw yn y trychineb hwn?

some say we shall never know, and
that to the gods we are like flies
killed on a summer day, and some
say, on the contrary, that the very
sparrows do not lose a feather that
has not been brushed away by the
finger of God . . .

Eto mae Wilder yn gorffen ei nofel gyda chadarnhad am yr hyn y mae'r Efengylau yn ein sicrhau, sef, gofal a chariad llwyr Duw dros bawb, ble bynnag a phwy bynnag ydynt

But soon we shall die and all
memory of those five will have left
the earth, and we ourselves shall be
loved for a while and forgotten. But
the love will have been enough; all
those impulses of love return to the
love that made them. Even memory
is not necessary for love. There is a
land of the living and a land of the
dead and the bridge is love, the

only survival, the only meaning.
(Wilder, 1927, p. 192)

Ond beth am *feirysau*? Bum mlynedd ar hugain yn ôl, ysgrifennodd John Bowker a oedd yn Ddeon Coleg y Drindod, Caergrawnt ar y pryd, lyfr pryfoclyd o'r enw *Is God a virus?* (1995). Roedd Bowker yn myfyrio ar y ddadl y gellid gweld credu yn Nuw fel feirws yn heintio meddyliau dynol, gyda chanlyniadau niweidiol. Cafodd ei honiad ei drafod a'i brofi yng nghyd-destun gwaith mewn geneteg a damcaniaethau cyd-esblygiad diwylliant genynnau, yn awgrymu ffyrdd y gellid dehongli'r rhyngweithio rhwng genynnau a diwylliant. Ochr yn ochr â hynny, mae llawer o'r rhai sy'n pledio seciwlariaeth wedi cyffelybu gostyngiad ac enciliad graddol rôl crefydd mewn bywyd cyhoeddus fel rhyw fath o 'feirws diwylliannol'. Mae'r wladwriaeth – cymdeithas, mewn geiriau eraill – wedi cael ei heintio a'i heffeithio gan ffactorau ymosodol a threiddiol sydd wedi gwanhau cryfder a 'system imiwnedd' crefydd.

Gan aros gyda 'chrefydd feiral', rwy'n cofio darlith drydanol (heb ei chyhoeddi) a roddwyd hefyd yn 1995 gan y diweddar Athro Anthony Dyson, lle'r oedd yn awgrymu fod 'gan gorff Crist Aids/HIV'. Gwnaeth ei ddarlith wefreiddio a rhannu'r gynulleidfa. Roedd rhai'n ei dehongli fel apêl at undod a dioddefaint corfforol Crist (yn yr un modd ag y gwelwn yn yr allorlun enwog yn Alsace, yr *Isenheim Altarpiece*, a gerfluniwyd ac a beintwyd gan Nikolaus o Hagenau a Matthias Grünewald rhwng 1512–16). Mae eraill yn credu fod papur Dyson yn dweud na allai'r eglwys gyfoes ymladd neu wrthsefyll seciwlaiddio feiral. Roedd eraill eto yn deall fod Dyson yn dadlau fod y 'feirws' yn fath o bathogen naturiol o fewn crefydd, a oedd yn newid y wladwriaeth ysbrydol.

Crefydd yn mynd yn Feiral: Ffydd a Chred mewn Pandemig

Yna mae angen ystyried *moesoldeb*. I ba raddau ydym ni angen crefydd i wneud synnwyr o farwolaeth, neu ffydd i gynnig cysur ynghanol colled? I lawer, mae rhywfaint o ysbrydolrwydd yn dal yn bwysig yn wyneb marwolaeth. Fodd bynnag, rhaid cyfaddef fod ffurfiau crefyddol o goffaoliaeth (yn cynnwys defod) bellach yn erbyn cryn gystadleuaeth seciwlar, a bod seremonïau ffurfiol sy'n seiliedig ar ffydd yn crebachu yn y diwylliant cyfoes.

Y pla gan Camus

Yn y nofel fer ond ragweledol gan Albert Camus – *The plague* (yn Ffrangeg, *La peste*, 1947) – down ar draws stori sy'n sôn am bla yn ysgubo drwy dref Oran yn yr Algeria Ffrengig. I ddechrau, dim ond ychydig sy'n marw; yna mwy; yna hyd yn oed yn rhagor. Mae panig yn y strydoedd wrth i'r epidemig gau am y boblogaeth. Nid oedd neb yn barod am hyn, ac ychydig feddyliai y byddai unrhyw bla yn dod yn agos atyn nhw.

Mae dinasyddion Oran yn byw mewn cyflwr o wadu parhaus. Hyd yn oed, fel yn Llundain yn 1665-6, a chwarter y ddinas yn marw, maent yn rhesymu na fyddan nhw. Mae'r bobl yma, wedi'r cyfan, yn byw yn yr oes fodern. Mae ganddyn nhw bapurau newydd, ceir, awyrennau a ffônau. 'Does bosib y bydd pobl Oran, yn marw fel trueiniaid Llundain yn yr 17eg ganrif neu Canton y 18fed ganrif.

Arwr y llyfr yw Doctor Rieux ac mae ei ddyngarwch gwydn yn creu argraff fawr. Nid yw'n cytuno â dehongliadau crefyddol y pla a geir gan yr offeiriad lleol, na bod y dinasyddion wedi colli eu rheswm. Wrth i nifer y marwolaethau gyrraedd uchafbwynt o 500 yr wythnos, mae Doctor Rieux yn meddwl am blentyn y bu'n edrych ar ei ôl ond a fu farw. Daw i'r casgliad fod dioddefaint yn cael ei ddosbarthu'n anwastad ac ar hap. Er yr

holl theodiciaeth yn y byd, nid yw dioddef yn gwneud synnwyr. Mae'n afresymol – a dyna'r peth caredicaf y gall rhywun ei ddweud amdano.

Sut mae Doctor Rieux yn ymateb i'r hyn sy'n digwydd o'i amgylch? Mae'n gweithio'n ddiflino i leddfu dioddefaint y rhai yn ei ofal. Ond nid arwr mohono. Fel mae'n dweud yn ddiweddarach 'gall hyn ymddangos yn syniad hurt ond yr unig ffordd o ymladd y pla yw gyda pharch'. Mae cymeriad arall yn gofyn iddo beth yw parch. '[Dim ond] gwneud fy ngwaith' ateba Doctor Rieux. Mewn geiriau eraill, mae dyletswydd a galwad yn dod gyntaf. Mae wedi ymrwymo i ofalu am eraill mewn angen. Nid oes angen dweud fawr mwy.

Mewn bywyd, nid oes gwarant o sicrwydd. Gan Camus, drwy Doctor Rieux, rydym yn dysgu'r wers yma: caru ein cyd-ddynion (p'un ai'n bod yn eu hoffi ai peidio, a waeth am ba mor hir maent yn byw neu faint o amser maent yn cymryd i farw), a gweithio gyda dewrder a gobaiith i gael rhyddhad o ddiodeffaint. Yn y pen draw, hosbis yw bywyd, nid ysbyty. Rydym yma i gynnig rhyw eli ynghanol trallod ac anobaith.

Wrth i'r nofel ddod i ben, mae Doctor Rieux o'r farn 'ni all yr adroddiad hwn fod yn hanes buddugoliaeth derfynol', oherwydd nid yw'r pla byth yn marw, mae'n 'disgwyl yn amyneddgar mewn llofftydd, selerydd, cistiau, hancesi a hen bapurau' am y dydd pan fydd yn codi eto. Gallai rhywun feddwl bod hwn yn nodyn digalon i orffen y nofel hon. Ond mae'n hynod o ddyngarol.

Ar fod yn ddyngarol

Fe ddewisais yr ansoddair 'dyngarol' yn ofalus. Oherwydd bod yn ddyngarol yw bod â dyletswydd a chonsym dros helpu i wella lles pobl, a gall y cymhelliant hwn darddu o wreiddiau moesol a chrefyddol. Gall berthyn i'r crefyddwyr a'r dyneiddwyr

Crefydd yn mynd yn Feiral: Ffydd a Chred mewn Pandemig

(ac ni fydd y naill ochr na'r llall yn poeni), oherwydd mae'n golygu gweld pobl fel pethau cynhenid werthfawr. Neu, eu gwerthfawrogi fel y byddai Duw'n eu gwerthfawrogi. Mae'r canlyniad yr un fath. Dyma wers y Samariad Trugarog (Luc 10). Neu'r Deg o Wahangleifion (Luc 17). Daioni er mwyn daioni: nid er diolchgarwch neu i'r tröedigion. Mae trugaredd yn bwysig.

Yn gyfatebol, nid oes dim yn agored 'Gristnogol' am y Fonesig Cicely Saunders a sefydlodd y mudiad hosbis modern. Wedi ymroi i liniaru dioddefaint, ysgrifennodd at ei chleifion: 'You matter because you are you, and you matter to the end of your life . . . we will do all we can not only to help you die peacefully, but also to live until you die' (Saunders in Stoddard, 1978, p. 91). Yn yr un modd, sefydlodd Chad Varah, curad Anglicanaidd o Lincoln, y Samariaid i helpu'r rhai hunan-laddol ac isel. Y cyfan a'i symbylodd oedd hunanladdiad merch yn ei harddegau, a oedd wedi cael ei hysgwyr pan ddechreuodd gael mislif ac yn ofni fod ganddi afiechyd rhywiol.

Mae'r ddwy enghraifft yma yn eithriadol o ddyngarol, ac mae'r ysgogiadau crefyddol ynddyn nhw yn fywiog, os nad yn amlwg. Weithiau dim ond y sioc a'r anobaith wrth weld sut mae pobl yn marw sy'n ein harwain i adolygu bywydau pobl eraill, a sut i ymateb. Meddyliwch am *Live Aid*. Meddyliwch am Gymorth Cristnogol: 'Credwn mewn bywyd cyn marwolaeth'.

Ar gyfrif

Beth ddywedodd Einstein unwaith? 'Not everything that counts can be counted; and not everything that can be counted, counts' (Einstein in Cameron et al., 2015, p. 38). Roedd Einstein yn iawn. Sut gallwn fesur y colli ymddiriedaeth gan gynifer, pan mai ond gweithredoedd

y chydig oedd yn cyfrif? Mae angen i ni fod yn ofalus am yr hyn a gyfrwn; a gofyn bob amser beth yw gwerth unrhyw rifau y cawn ein gwahodd i'w nodi (a'r rheini y gofynnir i ni eu hanwybyddu). Mae pawb yn cyfrif. Nid oes neb yn ddiwerth. Er yr holl siarad am 'bigynnau', 'lefelu' a 'chadw'r rhif R o dan 1', yn y pandemig hwn bydd dros 50,000 o farwolaethau y *gellid bod wedi'u hatal* yn y DU. Sy'n golygu o leiaf 500,000 (efallai miliwn) o brofedigaethau y gellid bod wedi'u hatal.

Yn ddiweddar cymerais angladd dros ffrind, yr oedd ei fam wedi marw mewn cartref gofal. Roedd ein hangladd yn dilyn y protocolau bryd hynny. Un mab yn bresennol, gyda'i bartner, y trefnydd angladdau a fi. Nid dyna'r ffarwel y byddai wedi'i gynllunio i'w fam. Gallai llawer mwy fod yno, a byddent wedi dod oni bai am y cyfyngiadau ar deithio a'r galw i gadw pellter cymdeithasol. Eto fe wnaethom ei chyflwyno i ofal grasol Duw, a meddyliais am y geiriau o gysur y mae Iesu'n eu cynnig: 'lle mae dau neu dri wedi dod ynghyd, yr wyf yno yn eu canol'. Meddyliais am yr adegau y bu i Iesu eistedd gyda'r rhai oedd yn galaru (Luc 8, Ioan 11). Mae bywyd a gweinidogaeth Iesu yn ein dysgu fod pob un yn werthfawr i Dduw. Mae *manylyn* gofalu yn bwysig. Fel dywedir yn Luc 12:7, 'mae hyd yn oed pob blewyn o wallt eich pen wedi ei rifo. Peidiwch ag ofni; yr ydych yn werth mwy na llawer o adar y to'. Mewn geiriau eraill, nid oes neb yn ddibwys i Dduw. Rydym i gyd yn bwysig. Gofynnir i ni fyw fel mae Duw yn gweld y byd hwn: mae pawb yn bwysig.

Gwerthodd llyfr Harold Kushner's *When bad things happen to good people* (1978) filiynau o gopiau ledled y byd. Ond ychydig sy'n cofio fod y llyfr llwyddiannus hwn wedi tyfu o'i golled bersonol ei hun. Rabbi oedd Kushner a gyflwynodd y llyfr er cof am ei fab ifanc, Aaron, a fu farw yn ei ardegau cynnar o glefyd genetig terfynol. Felly

Crefydd yn mynd yn Feiral: Ffydd a Chred mewn Pandemig

ysgrifennwyd y llyfr gan ddyn da oedd yn gweddïo'n galed – ond a gollodd ei fab yr un fath. Fel Doctor Rieux ac Albert Camus, gwyddai Kushner nad yw gwir grefydd yn cael ei fesur gan sut rydym yn osgoi dioddefaint neu golled, ond yn hytrach, sut rydym yn delio â nhw.

people who pray for courage, for strength to bear the unbearable, for the grace to remember what they have, instead of what they have lost, very often find their prayers answered . . . [because] God . . . doesn't send us the problems. . . but God does give us the strength to cope with them. (Kushner, 1978, pp. 125-127)

Yn yr oes hon cawn ein blino gan bob math o niferoedd ac ystadegau. Ond mae'n bosibl nad yw hyd yn oed niferoedd ac ystadegau'r pla yn edrych ac yn cyfrif yn y ffordd iawn mwyach. Gofynnir i ni weld dynoliaeth fel mae Duw yn ei weld. Cyfrif fel mae Duw yn cyfrif. Un blewyn strae, un aderyn y to (Luc 12:7), un ddafad golledig (Luc 15: 3-7): mae pawb yn cyfrif. Nid oes neb ddim yn

cyfrif. Mae pob unigolyn yn cael ei wneud ar ddelw Duw, ac mae'n werthfawr yng ngolwg a chalon Duw. Credaf y byddai Iesu, Gair Duw, yn cytuno. Yn sicr dyna'r oedd yn ei arfer. Ac yn ei gredu. Roedd Iesu'n poeni llai am beth roedd pobl yn ei gredu, roedd ganddo fwy o ddi-ddordeb yn yr hyn roedden nhw'n ei wneud. Mae anffyddiwr da yn well na Pharisead gwael. Roedd pechadur caredig neu Samariad trugarog a ofalodd yn llawer mwy o ddefnydd i Dduw na Sadwcead cul. Mae'n ymddengys fod Iesu'n credu y gallech fod ysbrydol, ond ddim yn grefyddol.

Yr hyn a yrrodd cymelliadau dyngarol Doctor Rieux, Cicely Saunders a Chad Varah – a llawer sy'n gweithio y dyddiau hyn ar reng flaen y GIG ac mewn cyd-destunau gofal cymdeithasol heriol, na fyddwn fyth yn gwybod eu henwau – yw'r hyn yr oedd Einstein yn ei awgrymu. Mae pawb yn cyfrif, yn gyfartal. Ni ddylai unrhyw niferoedd neu ystadegau y mae unrhyw lywodraeth yn eu hybu ar glefydau pandemig, ac awgrymu y gallai fod fel arall, fod â'r hawl i arfer cymaint o rym yn y byd hwn. Nac yn y byd a ddaw.

Dolenni rhyngwyd

<https://www.christianaid.org.uk/our-work/about-us/our-aims> (Nodau Cymorth Cristnogol)

https://en.wikipedia.org/wiki/Chad_Varah (Wikipedia ar Chad Varah)

https://en.wikipedia.org/wiki/Cicely_Saunders (Wikipedia ar Cicely Saunders)

https://en.wikipedia.org/wiki/The_Plague (Wikipedia ar *The plague Camus*)

Pwyntiau trafod

1. Sut gallai pobl wneud synnwyr o ddiodefaint a marwolaeth mewn cymdeithas sy'n fwy a mwy seciwlar sy'n rhoi llai o le ac amlygrwydd i grefydd, ac eto sy'n dal yn ysbrydol?
2. Os mai feirws yw crefydd, efallai'n bod wedi'i ddal ar ryw adeg: ydych chi wedi profi ynoch chi'ch hun neu eraill 'bwl' drwg o grefydd, ac os felly, sut gwnaethoch chi/gwnaethon nhw ddod drosto?
3. Mae llawer o feirysau yn byw 'yn naturiol' yn y corff heb achosi niwed, hyd yn oed yn gwneud lles yn aml. Pa agweddau da o grefydd y gellir eu nodi yn y byd modern, hyd yn oed gan y rheini nad ydynt eisiau unrhyw ran o fydd eu hunain?
4. Edrychwch ar yr allorlun, yr *Isenheim Altarpiece* (https://en.wikipedia.org/wiki/Isenheim_Altarpiece) – beth ydych chi'n meddwl oedd yr arlunydd a'r cerflunydd yn ceisio'i ddweud wrthym am fywyd Duw yn y byd?
5. Sut hoffech chi gael eich cofio a pham? Rhowch gynnig ar ysgrifennu eich teyrnged eich hun.

Cyfeiriadau

- Bowker, J. (1995). *Is God a virus? Genes, culture and religion*. London: SPCK.
- Camus, A. (ET 1991). *The plague*, trans. S. Gilbert, New York: Vintage.
- Cameron, P. et al., (2015). *Textbook of adult emergency medicine*. Edinburgh: Fourth.
- Hartnell, J. (2018). *Medieval bodies: Life, death and art in the Middle Ages*. London: Wellcome Collection.
- Hatcher, J. (2008). *The Black Death*, London: Weidenfeld and Nicolson.
- Kushner, H. S. (1978). *When bad things happen to good people*. London: Pan.
- Mortimer, I. (2009). *The time traveller's guide to medieval England: A handbook for visitors to the fourteenth century*. London: Vintage.
- Snowden, F.M. (2019). *Epidemics and society: From the Black Death to the present*. New Haven, Connecticut: Yale University Press.
- Stoddard, S. (1978) *The hospice movement*. New York: Stein and Day.
- Wilder, T., & Leighton, C. (1927). *The Bridge of San Luis Rey*. London: Longmans, Green.

Mae'r Gwir Barchedig yr Athro Martyn Percy yn Ddeon Eglwys Crist, Rhydychen. Mae'n dysgu yn y Gyfadran Diwinydiaeth a Chrefyddau, ac i Ysgol Fusnes Said, ym Mhrifygso! Rhydychen. Mae ei lyfrau'n cynnwys The future shapes of Anglicanism: Currents, contours, charts (Routledge, 2017), Anglicanism: Confidence, commitment and communion (Ashgate, 2013) and Shaping the Church: The promise of implicit theology (Ashgate, 2010).

Stephen Hawking a Bydysawd heb Dduw?

David Wilkinson

A yw hanes gwyddonol am darddiad y Bydysawd yn diystyru, neu o leiaf yn tanseilio, yr honiad crefyddol mai Duw yw creawdwr y bydysawd? Mae gwaith y ffisegydd Stephen Hawking yn aml yn cael ei ddyfynnu fel tystiolaeth dros hyn. Mae'r erthygl hon yn edrych ar waith Hawking ac yn awgrymu ei bod yn bwysig fod trafodaeth ddiwinyddol yn herio rhai dadleuon ynglŷn â bodolaeth Duw, ac ar yr un pryd yn codi cwestiynau buddiol.

Cysylltiadau â'r fanyleb:

AQA 3.1 Efen 1: Athroniaeth crefydd a moeseg, 3.1 3.1.1 Adran A: Athroniaeth crefydd . . . Dadl Gosmolegol

EDEXCEL Papur 1: Athroniaeth Crefydd: Pwnc 1.2 Dadl Gosmolegol; 6.3 Dadleuon crefydd a gwyddoniaeth a'u harwyddocâd i athroniaeth crefydd, b) Themâu'r

greadigaeth a chosmoleg wyddonol: Y Glec Fawr, damcaniaethau cyflwr sefydlog EDUQAS Efen 1: Astudiaeth o Grefydd [pob opsiwn]: her gwyddoniaeth [ynghylch creadigaeth]; Efen 2: Athroniaeth Crefydd Thema 1: Dadleuon dros fodolaeth Duw – anwythol, dadl Gosmolegol

OCR Athroniaeth crefydd (H573/01): 2. Bodolaeth Duw . . . Dadleuon Gwybodaeth yn seiliedig ar arsylwi, y ddadl gosmolegol

Hawking, Duw a'r cyfryngau

Pan fu farw Stephen Hawking ym mis Mawrth 2018, roedd y diddordeb enfawr yn y cyfryngau yn adlewyrchu nifer amrywiol o faterion. I ddechrau, yr hyn a gyflawnodd fel un o ffisegwyr mawr ei oes, wedi gwneud cyfraniadau hanfodol at ddealltwriaeth o berthynoledd, y Glec Fawr a thyllau du. Yn ail, cyflawnodd bron y cyfan o hyn tra'n ymladd afiechyd gwanychol, sef ffurf brin o glefyd niwronau motor. Roedd hwn yn hanes personol anhygoel. Yn drydydd, er nad

oedd yn ffisegydd 'seleb' fel Brian Cox, cafodd Hawking enwogrwydd rhyngwladol gyda llyfrau poblogaidd dros ben fel *A brief history of time* ac ymddangosiadau mewn diwylliant poblogaidd fel *The Simpsons*, *Star Trek: The Next Generation* ac fel arwr Sheldon yn *The Big Bang theory*.

Ond, roedd yna bedwaredd elfen hefyd a honno oedd diddordeb y cyhoedd yn yr hyn a ddywedodd Hawking am Dduw, nid lleiaf a oedd angen Duw mewn unrhyw

Stephen Hawking a Bydysawd heb Dduw?

ffordd ar gyfer dechrau'r Bydysawd. Disgrifiwyd ei lyfr *A brief history of time*, a werthodd dros 10 miliwn o gopiâu, gan ei gyd-astroffisegydd Carl Sagan yn y rhagair fel:

a book about God . . . or perhaps about the absence of God . . . The word God fills these pages . . . a universe with no edge in space, no beginning or end in time, and nothing for a Creator to do. (Hawking, 1988, p. x)

Pan gyhoeddwyd ei lyfr poblogaidd nesaf, *The grand design* (Hawking & Mlodinow, 2010), pennawd papur newydd *The Times* (2 Medi, 2010) oedd 'Hawking: God did not create the universe'. Ochr yn ochr ag ef, gwnaeth astroffisegydd arall, Lawrence Krauss, yn *A Universe from nothing*, yr honiad diwinyddol nad oes angen Duw ar foment gyntaf y Bydysawd (Krauss, 2012).

We are each free to believe what we want, and it's my view that the simplest explanation is that there is no God. No one created the universe, and no one directs our fate. (Hawking, 2018, p. 211)

Fodd bynnag, yn erbyn ystrydeb y cyfryngau, sef bod y darganfyddiadau hyn yn golygu marwolaeth creawdwr, mae rhyngweithio'r ffydd Gristnogol â gwyddoniaeth am darddiad y Bydysawd yn llawer mwy cynnil ac yn wir yn fuddiol. Weithiau mae'r darganfyddiadau newydd hyn yn annog trafodaeth newydd am ffydd ac weithiau maent yn arwain at ddealltwriaeth newydd o ffydd. Nid ymosodiad uniongyrchol yw her cosmoleg gyfoes i Gristnogaeth, ond cyfle i gymryd gwyddoniaeth o ddifrif mewn meddwl diwinyddol, ac i adeiladu pontydd rhwng ffydd a diwylliant.

Er mwyn archwilio hyn mae angen i ni ddeall agwedd Hawking a'r ffordd y mae'n rhyngweithio ag agweddau traddodiadol at theistiaeth.

Hawking, Duw a gwyddoniaeth

Honiad pryfoclyd Hawking oedd 'philosophy is dead. Philosophy has not kept up with modern developments in science, particularly physics' (Hawking & Mlodinow, 2010, p. 5). Mae hyn yn adlewyrchu teimlad ymhlith rhai gwyddonwyr fod diffyg dealltwriaeth neu ymgysylltu *penodol* wedi bod gyda damcaniaethau gwyddonol fel chwyddiad, damcaniaeth llinyn neu ddamcaniaeth-M. Yn hytrach, maent yn dadlau, mae diwinyddion ac athronwyr yn parhau i ddweud pethau cyffredinol am y creu.

Un o gyflawniadau mawr cosmoleg fu model Clec Fawr y Bydysawd. Mae'n disgrifio'r Bydysawd yn ehangu o adeg pan oedd ddim ond yn 10^{-43} eiliad oed. Yr adeg honno, 13.8 biliwn o flynyddoedd yn ôl, roedd y Bydysawd yn fâs hynod o ddwys, mor fach y gallai fynd trwy grau nodwydd. Cefnogir y model hwn gan dystiolaeth o ruddiad galaethau, yr ymbelydredd cefndir microdon a digonedd heliwm yn y Bydysawd. Wrth gwrs, fel unrhyw fodel gwyddonol, mae ganddo rai bylchau. Mae cyfran fawr o'r Bydysawd (dros 70%) ar ffurf egni tywyll ac ar hyn o bryd ychydig a wyddom beth yw hwnnw. Mae 23% arall o'r Bydysawd ar ffurf mater tywyll; gwyddom ei fod yno ond nid ydym yn siŵr beth yw hwnnw chwaith. Mae'r ffaith ein bod ond yn gwybod am fymryn lleiaf o'r hyn mae'r Bydysawd wedi'i wneud ohono yn dipyn o embaras i gosmolegwyr. Eto grym gwyddoniaeth yw ein bod yn gwybod beth nad ydym yn ei wybod, ac rydym yn gallu cynllunio arbrofion yn yr *Hadron Collider* mawr a all o leiaf ddweud wrthym beth yw mater tywyll.

Stephen Hawking a Bydysawd heb Dduw?

Mae rhai cwestiynau yn llawer mwy anodd. Mae model safonol y Glec Fawr boeth yn disgrifio tarddiad y Bydysawd fel ehangiad o hynodyn, hynny, pwynt o ddwysedd annherfynol. Ond mae'r hynodyn hwnnw yn codi problemau yn syth. I ddechrau, mae perthynoledd cyffredinol, sy'n disgrifio ehangu'r Bydysawd mor dda, yn awgrymu nad yw amser yn gwbl annibynnol ar ofod, a bod disgyrchiant yn cael ei esbonio wedyn fel canlyniad o'r gofod-amser yn cael ei grymu gan ddsbarthiad màs-egni oddi mewn iddo. Felly, mae dosbarthiad màs yn pennu geometreg gofod a chyfradd llif amser. Nid yw perthynoledd cyffredinol yn gallu ymdopi â'r annherfynoldeb hwn ac mae'n rhagfynegi ei gwmp ei hun; hynny yw, mae'r ddamcaniaeth yn torri i lawr yn yr hynodyn.

Yn ail, mae perthynoledd cymharol fel damcaniaeth yn anghyson â damcaniaeth cwantwm. Mae angen i berthynoledd cyffredinol, sy'n hynod o lwyddiannus o ran disgrifio strwythur graddfa fawr y Bydysawd, bennu màs a safle er mwyn wedyn disgrifio'r geometreg a llif amser. Ar hynodyn, lle mae'r maes disgyrchol mor gryf a'r Bydysawd cyfan mor fach fel ei fod ar raddfa atomig damcaniaeth cwantwm, credir y dylai effeithiau cwantwm fod yn bwysig. Mae damcaniaeth cwantwm, fodd bynnag, yn dweud na all rhywun byth wybod beth yw màs a safle unrhyw beth heb ansicrwydd cynhenid. Ni allwch alw ar berthynoledd cyffredinol a damcaniaeth cwantwm i ddisgrifio sefyllfa.

Problem hynodyn, felly, yw nad yw perthynoledd cyffredinol yn gallu rhoi disgrifiad o'r hynodyn; mewn geiriau eraill, ni all perthynoledd cyffredinol esbonio amodau cychwynnol y Bydysawd yn ehangu. Felly nid yw damcaniaethau mawr yr 20fed ganrif yn gallu rhagfynegi beth fydd yn dod allan o'r hynodyn.

Gallant ddisgrifio'r ehangu dilynol ond nid ydynt yn gallu cyrraedd yn ôl y tu hwnt i oed o 10^{-43} eiliad i sero.

Roedd y cyfyngiad hwn ar ddamcaniaeth wyddonol, sef methu mynd yn ôl i'r dechrau'n deg, yn rhwystredig i ffisegwyr ond yn ddeniadol i rai diwinyddion. Oes angen Duw i 'osod' amodau cychwynnol y Bydysawd? Os nad yw gwyddoniaeth yn gallu disgrifio'r eiliadau cychwynnol, ai dyma 'y bwlch' lle mae Duw yn dod i roi cychwyn i'r Bydysawd?

Fodd bynnag, mae llawer o wyddonwyr yn iawn i wrthsefyll y llwybr hwn. Mae Hawking yn ceisio defnyddio deddfau ffiseg i esbonio nid yn unig esblygiad y Bydysawd ond hefyd ei amodau cychwynnol. Er mwyn gwneud hyn, mae'n rhaid dod â damcaniaeth cwantwm a pherthynoledd cyffredinol ynghyd i ddamcaniaeth cwantwm am ddisgyrchiant. Mae'n awgrymu y gall damcaniaeth o'r fath esbonio sut mae papur tanio glas y Glec Fawr *yn ei gynnu ei hun*. Craidd damcaniaeth Hawking, yn ymadrodd John Barrow, yw 'once upon a time there was no time' (Barrow, 1993). Yn ôl Hawking, *mae* gan y Bydysawd ddechrau ond *nid oes* angen achos arno, oherwydd yn y ddamcaniaeth hon mae'r syniad am amser yn cilio. Mae Bydysawd Hawking yn ymddangos o amrywiad yn y maes cwantwm. Nid oes angen achos fel y cyfryw.

Cred Hawking mai'r ddamcaniaeth orau ar gyfer esbonio amodau cychwynnol y Bydysawd yw damcaniaeth-M, sydd mewn gwirionedd yn deulu cyfan o wahanol ddamcaniaethau lle mae un ddamcaniaeth yn weithredol i ffenomenau o fewn rhychwant arbennig. Mae'n awgrymu un ar ddeg dimensiwn o ofod-amser. Fodd bynnag, i Hawking mae'n awgrymu fod ein Bydysawd ni yn un o 10^{500} o fydysawdau sy'n deillio'n

Stephen Hawking a Bydysawd heb Dduw?

naturiol o ddeddfau ffisegol. Ac iddo ef, 'their creation does not require the intervention of some supernatural being or god' (Hawking & Mlodinow, 2010, p. 8).

Rhaid pwysleisio nad yw barn Hawking am hyn yn cael ei derbyn yn llawn gan weddill y gymuned wyddonol. Mae cynigion eraill am sut i ddelio â'r broblem fod y deddfau yn torri i lawr, ac mae'n dal yn anodd gwybod a ellir cymhwyso theori cwantwm i'r Bydysawd cyfan.

Hawking, Duw a diwinyddiaeth

Os yw ymgais Hawking i esbonio'n wyddonol moment gyntaf hanes y Bydysawd wir yn llwyddiannus, yna mae hyn yn dymchwel unrhyw ddiwinyddiaeth 'duw'r bylchau'. Ond nid yw Duw diwinyddiaeth Gristnogol yn Dduw sy'n llenwi unrhyw fylchau yn ein hanwybodaeth wyddonol gyfoes, nac yn un sy'n rhyngweithio â moment gyntaf un hanes y Bydysawd ac yna'n ymddeol i bellter diogel. Gall defnydd Hawking o ddamcaniaeth-M weithio yn y diwedd, ond bydd y diwinydd Cristnogol, tra'n cymeradwyo'n wresog, hefyd yn codi'r cwestiwn o ble mae'r ddamcaniaeth-M ei hun yn dod. Mae diwinyddiaeth yn honni mai Duw yw'r un sy'n creu ac yn cynnal deddfau ffiseg, deddfau y mae gwyddoniaeth yn eu derbyn ond ddim yn eu hesbonio.

Mae dadl duw'r bylchau fel hyn wedi cael ei defnyddio weithiau mewn dadleuon amddiffynnol sy'n ceisio profi bodolaeth Duw. Y ddadl fod ar y Glec Fawr angen Duw i'w chychwyn yw'r 'ddadl gosmolegol' ar ffurf fydol ac fe'i defnyddiwyd mewn cyd-destunau gwahanol ers canrifoedd. Fodd bynnag, mae ganddi nifer o wendidau. Cyfeiriodd Awstin ganrifoedd lawer yn ôl at y ffaith fod y Bydysawd wedi'i greu *gydag amser*, nid *mewn amser*. Felly, mae gofyn cwestiwn am beth a ddaeth *cyn* y Bydysawd yn ceisio defnyddio'r cysyniad

o amser cyn i amser ei hun ddod i fodolaeth. Ar ben hynny, mae'r ddadl achos cyntaf yn deillio o syniad mai peth neu ddigwyddiad yw'r Bydysawd. Mae'n hawdd honni fod gan bopeth achos, ond ai peth neu ddigwyddiad yw'r Bydysawd?

Yn fwy pwysig, wrth i wyddonwyr esbonio mwy a mwy o'r Bydysawd, mae temtasiwn i chwilio am fylchau anesboniadwy yn yr wybodaeth am y byd naturiol er mwyn canfod lle i Dduw. Ond mae 'duw'r bylchau' fel hyn bob amser mewn perygl o fynd yn amherthnasol, wrth i wyddoniaeth lenwi mwy o'i stori ei hun i mewn.

Mewn cyferbyniad, mae'r Beibl yn deall mai canlyniad gwaith Duw yw'r Bydysawd cyfan. Felly, mae Duw yn gweithio gymaint yn yr 10⁻⁴³ eiliad cyntaf ag ar unrhyw adeg arall. Nid yw disgrifiad gwyddonol o'r foment honno mewn amser yn ei dirymu fel bod yn gymaint o waith Duw ag unrhyw ddigwyddiad arall. Yn wir, ni chawn yn y Beibl ddelweddau o dduw deistaid sy'n torri potel yn erbyn cragen llong y Bydysawd ac yn ei chwifio i ffwrdd i'r pellter (gan ddweud efallai 'Hwyl fawr, welai ti ar ddydd y farn?'). Yn hytrach, mae Paul, yn ei lythyr at y Colosiaid, yn sôn am Grist fel 'delw'r Duw anweledig', 'ynddo ef y crewyd pob peth' ac 'ynddo ef y mae pob peth yn cydsefyll' (1:15-17). Mae hyn yn creu darlun o Dduw lawer mwy fel yr un sy'n dal y Bydysawd ar wyneb y dŵr a gyda'i gilydd. Duw yw sail y drefn naturiol, sail ei deddfau ffisegol. Mae hyn yn llawer nes at Dduw theistiaeth Gristnogol nac yw deistiaeth.

Mae Don Page, cydweithiwr i Hawking dros amser, yn crynhoi'r safbwynt hwn yn y geiriau hyn:

God creates and sustains the entire Universe rather than just the beginning. Whether or not the Universe has a beginning has no

relevance to the question of its creation, just as whether an artist's line has a beginning and an end, or instead forms a circle with no end, has no relevance to the question of its being drawn. (Page, 1998)

Yr hyn y mae Hawking *wedi'i* gyflawni yw dangos annigonolrwydd duw deistaidd y bylchau sy'n deillio o fersiwn eithaf diniwed a bydol o'r ddadl gosmolegol. Er

y bu cyfnodau yn hanes Cristnogaeth lle bu dadleuon o'r fath dros fodolaeth Duw yn amlwg, nid yw diwinyddiaeth Gristnogol erioed wedi dibynnu arnyn nhw. Yn hytrach, mae wedi cydnabod fod ein gwybodaeth am Dduw yn dod yn bennaf drwy hunan-ddatguddiad Duw mewn hanes a phrofiad.

Ni wnaeth Hawkins erioed fynd i'r afael â'r honiadau hyn yn y meddwl Cristnogol.

Dolenn i'r rhyngrwyd

<https://www.youtube.com/watch?v=Pj7nltu4bxw>

(Capturing Christianity, David Wilkinson a Dave Hutchings yn cael eu holi am eu diddordeb yn Stephen Hawking a'i waith)

https://www.youtube.com/watch?v=qAk2cUlx0_o

(The World as Told by Stephen Hawking)

<https://www.youtube.com/watch?v=D6lFGJdwRyo>

(Stephen Hawking's big ideas . . . made simple, *Guardian Animations*)

Pwyntiau trafod

1. Dywedodd Hawking, mewn rhaglen ddogfen ar sianel *Discovery*:

I believe the simplest explanation is, there is no God. No one created the universe and no one directs our fate. This leads me to a profound realization that there probably is no heaven and no afterlife either. We have this one life to appreciate the grand design of the universe and for that, I am extremely grateful.

Sut byddai theist yn ymateb i'r golwg hwn ar y Bydysawd?

2. A yw dechrau rhywbeth angen achos bob amser?
3. Pa mor bwysig yw'r ddadl gosmolegol i gred Gristnogol?

Stephen Hawking a Bydysawd heb Dduw?

Cyfeiriadaeth a darllen pellach

Barrow, John D. (1993). *The Observer*, 7 May.

Hawking, Stephen, W. (1988). *A brief history of time: From the Big Bang to black holes*. London: Bantam.

Hawking, Stephen W. (2018). *Brief answers to the big questions*. New York: Random House.

Hawking, Stephen W., & Mlodinow, Leonard (2010). *The grand design*. London: Bantam.

Krauss, Lawrence M. (2012). *A Universe from nothing: Why there is something rather than nothing*. London: Simon & Schuster.

Page, Don (1998). Hawking's timely story, *Nature*, 333, 742-743.

Wilkinson, David, & Hutchings, David (2020). *God, Stephen Hawking and the multiverse: What Hawking said, and why it matters*. London: SPCK.

David Wilkinson yw Prifathro Coleg St John's ac mae'n Athro yn yr Adran Diwinyddiaeth a Chrefydd. Ei lyfr diweddaraf, gyda Dave Hutchings, yw God, Stephen Hawking and the multiverse (SPCK, 2020).

A yw Sail Enetig Bywyd ar y Ddaear yn gwneud Bywyd ar ôl Marwolaeth yn Beth Amhosibl?

C. Mark Harrison

Crëwyd yr erthygl hon i ddechrau mewn ymateb i gwestiwn o bapur sampl Safon Uwch athroniaeth crefydd. Y cwestiwn oedd 'Aseswch yn feirniadol honiad Dawkins, gan nad yw bywyd yn fwy na DNA yn atgynhyrchu ei hun, ni all fod bywyd ar ôl marwolaeth. Mae'n codi cwestiynau am syniadau Richard Dawkins, rhydwythiaeth fiolegol a phwnc astrus a heriol bodolaeth ar ôl marwolaeth.

Cyswllt manyleb:

AQA Eifen 1: Adran A: Athroniaeth Crefydd. 3.1.1 Yr Hunan, Marwolaeth a'r Byd a Ddaw; Eifen 2: Astudiaeth o grefydd a deialogau. 3.2.2 2B: Cristnogaeth, Adran A: Yr Hunan, Marwolaeth a'r Byd a Ddaw, Cristnogaeth a Gwyddoniaeth, Cristnogaeth a her seciwlaariaeth; Adran B: Deialogau rhwng Cristnogaeth ac Athroniaeth

EDEXCEL Papur 1 Athroniaeth Crefydd (9RS0/01): Pwnc 5 Gwaith Ysgolheigion 5.1 Cyd-destun i feirniadaethau cred crefyddol a phwyntiau trafod . . . mathau o anffyddiaeth ac agnosticiaeth. Gan gyfeirio at syniadau R Dawkins a M Westphal;

Pwnc 6: Dylanwadau Datblygiadau mewn Crefydd a Chred, 6.1 Safbwyntiau am fywyd ar ôl marwolaeth ar draws ystod o draddodiadau crefyddol; 6.2 Pwyntiau trafod am fywyd a marwolaeth

EDUQAS Eifen 1, Opsiwn A: Astudio Cristnogaeth: Thema 3: Datblygiadau cymdeithasol a hanesyddol bwysig mewn syniadau crefyddol, Gwybodaeth a dealltwriaeth o grefydd a chred, E: Y berthynas rhwng crefydd a chymdeithas: parch a chydabyddiaeth a'r ffyrdd y mae traddodiadau crefyddol yn ystyried bydolygon crefyddol ac anghrefyddol eraill a'u honiadau gwirionedd. Datblygiadau hanesyddol mewn syniadau crefyddol - heriau gan wyddoniaeth

OCR Athroniaeth Crefydd (H573/01): 1. Iaith a Syniadau Athronyddol: Yr Enaid, y Meddwl a'r Corff; Datblygiadau mewn meddwl Cristnogol (H573/03): 6. Yr heriau sy'n wynebu syniadau crefyddol gan feysydd fel gwyddoniaeth

Rhydwythiaeth wyddonol

Mae'r honiad hwn gan Dawkins¹ yn diffinio bywyd yn eglur mewn termau y gellid eu galw'n rhydwythol, fel y awgrymir gan y geiriau 'dim mwy na', a dyma ble byddai rhai yn gweld diffyg. Mae gan rydwythiaeth ei defnydd: mae angen i ni wybod fod ein cyrff wedi'u

gwneud o biliynau o gelloedd er mwyn deall sut maen nhw'n gweithio, ac mae'n ddefnyddiol gwybod y gellir dadansoddi ymddygiad pobl ac anifeiliaid yn nhermau

¹Nid wyf wedi gallu dod o hyd i'r union ddyfyniad gan Dawkins sy'n gwneud y cysylltiad hwn, er ni ellir amau y gallai fod wedi'i wneud (er byddai ef wedi'i fynegi ychydig yn fwy manwl gywir).

Genetig Bywyd ar y Ddaear

cymhelliad ac atgyfnerthiad. Fodd bynnag, nid yw disgrifio llew yn nhermau'r elfennau sydd yn ei gorff, neu alw cyfrifiadur yn rhywbeth metel, plastig a gwydr' – er eu bod yn wir – yn ein helpu na rhoi gwybodaeth i ni. Y trefniant yw popeth ac yn aml mae'r cyfan yn fwy, yn aml yn sylweddol fwy, na chyfanswm ei rannau. Felly mae'n rhaid i ni fod yn ofalus cyn derbyn honiadau rhydwythol ar eu golwg.

I Dawkins, mae damcaniaeth esblygiad drwy ddetholiad naturiol, fel y cyflwynwyd gan Darwin yn ei *Origin of species*, gystal â bod wedi'i phrofi ac mae'n ffurfio rhan ganolog a chwbl hanfodol o'i farn, fel y mae bodolaeth DNA, y mae ei natur – a ddarganfuwyd gan Watson a Crick yn yr 1950au – yn darparu sail fiocemegol i eneteg ac etifeddeg. Mae llyfr Dawkins, *The selfish gene* (1976), a'i gwnaeth yn enwog, yn absoliwt yn y ffordd mae'n mynnu y gellir esbonio *pob* agwedd o fywyd, boed lysesuyn, anifail neu ddynol, yn nhermau'r awydd (diymwybod) gan enynnau i'w hatgynhyrchu eu hunain. Hawlia Dawkins mai peiriannau ar gyfer lluosogi eu genynnau yw bodau dynol yn eu hanfod, er eu holl agweddau esthetig a deallusol.

Yn ei yrfa fwy diweddar, ystyriwyd Dawkins yn brif anffyddiwr neu atheist Prydain; mae marwolaeth Christohper Hitchens, cystadleuydd am y teitl, wedi'i gadarnhau yn y rôl hon wrth iddo nesu at ei ben-blwydd yn wyth deg. Mae'n cymryd safbwynt materolaidd sy'n cydfynd â'r empiriaeth lem sy'n greiddiol i'w ddealltwriaeth o fioleg esblygol. Bu mynd mawr ar ei lyfr o 2006 *The God delusion*, sy'n gwrthod theistiaeth yn bendant.² Mae'n gwneud datganiad enwog yn *River out of Eden*: 'there is no spirit-driven life force, no throbbing, heaving, pullulating, protoplasmic, mystic jelly. Life is just bytes and bytes of digital information' (Dawkins, 1995, pp. 18-19); mae hyn yn

gwrthod y metaffisegol yn glir ac nid yw'n gadael dim lle i unrhyw ddealltwriaeth ddeuol o'r enaid, nac, yn amlwg, o unrhyw farn y gall yr enaid rywsut oroesi marwolaeth.

Ar y naill law, mae'n amlwg yn gywir yn y ffaith fod pob ffurf ar fywyd, yn fiolegol, wedi dod o godio'r DNA mewn genynnau, ac nid yw bodau dynol yn eithriad i hyn. Ar un lefel, rydym wedi esblygu fel modd o amlhau ein genynnau, fel y mae pob creadur byw arall. Gall y genynnau sy'n gwneud ein cyrff yr hyn ydynt barhau i fodoli am filoedd o flynyddoedd, ond ni fyddwn ni, fel unigolion. Rydym yn marw, ac mae'r corff a fu yr unig fynegiant ffisegol o'n hunain, yn stopio gweithio ac yn pydru neu'n cael ei losgi (neu o bosibl ei fwyta). Ar ôl tipyn, nid yw'r corff hwnnw yn 'bodoli' mewn unrhyw ystyr, ac eithrio yng nghof pobl eraill neu mewn lluniau. Ni fyddai'r rhan fwyaf o bobl yn dymuno dim gwahanol, gan y byddai bywyd hirfaith, diddiwedd o bosibl mewn corff, yn agored i ddifrod amser ac afiechyd, yn ymddangos yn anathema. Felly, mae Dawkins yn gywir yn honni nad yw bioleg yn cynnig unrhyw sail i fywyd ar ôl marwolaeth – a phe byddai, nid dyma beth fyddai pobl yn ei ddymuno.

Ond, ai bioleg yw'r unig beth y gellir ei ddweud am fod dynol? Allwn ni wir gael ein crynhoi fel pentwr o brosesau biolegol rhyng-gysylltiedig, ddim ond at bwrpas lluosogi y llinynnau DNA rydym yn eu galw'n enynnau?

Mynd y tu hwnt i rydwythiaeth?

Mae rhywfaint o waith Dawkins, yn fwyaf amlwg yn *Unweaving the rainbow*, yn ymddangos fel pe bai'n awgrymu fod pobl

² Roedd gwrthwynebiad cynyddol ddirugaredd Dawkins at grefydd a'r syniad o fywyd ar ôl marwolaeth, sy'n amlwg yn *The God delusion*, yn deillio i raddau o'r digwyddiadau yn Efrog Newydd ar 11 Medi 2001, a gafodd effaith ddofn arno, fel yn wir ar lawer, a chymelliad ymddangosiadol grefyddol y rheini oedd yn gyfrifol am yr erchyllterau. Mae Dawkins fwy a mwy yn gweld fod credu mewn bywyd ar ôl marwolaeth nid yn unig yn afresymegol, ond hefyd yn wirioneddol beryglus.

Genetig Bywyd ar y Ddaear

yn y pen draw yn mynd y tu hwnt i'w bioleg, er nid mewn unrhyw fath o fodolaeth ôl-farwolaeth. 'Rydym yn mynd i farw', yn amlwg, ond mae'n dweud 'dyna pan mai ni yw'r rhai lwcus' (Dawkins, 1998, p. 1) oherwydd mae'n golygu ein bod wedi byw. Mae nifer annherfynol o fodau dynol posibl a allai fod wedi bodoli, gyda'r cyfuniad cywir o enynnau, ond fel mae'n digwydd, ni yw'r rhai sydd yn bodoli. Mae hyn yn rhoi cyfle i ni fwynhau, am nifer fer o flynyddoedd, agweddau esthetig, deallusol a chymdeithasol bywyd. Mae yna gyfleoedd enfawr na ddylem eu colli, yn ein bywydau byr, i wybod pwy a beth ydym ni, i garu ac i ddathlu'n bodolaeth. Mae teimlad ysbrydol i ystyriaethau o'r fath sy'n anodd ei gysoni â'r syniad 'nid yw bywyd yn ddim mwy na DNA yn ei atgynhyrchu ei hun'. Fel rhywogaeth, mae'n ymddangos ein bod wedi codi uwchlaw ein tarddiad.

Yn ddiddorol, ceir cefnogaeth am farn Dawkins yn ysgrifau Sant Paul, yn 1 Corinthiaid, pennod 15. Wedi egluro syniad yr atgyfodiad i eglwysi'r Cenhedloedd cynnar, roedd Paul yn cael ei boeni gan gwestiynau am natur y corff atgyfodedig ac mae'n gorfod ei gwneud yn glir na fydd yr un fath â'r corff sydd gennym yn awr; yn wir, mae'n angenrheidiol fod y corff ffisegol yn marw. Felly, ym mha fodd bynnag yr ydym yn bodoli yn y byd a ddaw, ni fydd fel yr endidau biolegol yr ydym ar hyn o bryd. I'w roi yn ddiwinyddol, 'ni all cig a gwaed etifeddu teyrnas Dduw' (1 Corinthiaid 15:50). Felly, ar un ystyr, nid yw honiad Dawkins yn mynd yn groes i'r meddwl crefyddol, ond mae'n gyfochrog ag ef.

Byddai gwrthodiad Dawkins o'r syniad am fywyd tragwyddol yn cael ei gadarnhau gan y rhan fwyaf o athronwyr atheist, agnostig a sgeptig. Mae ei fateroliaeth, y gellid ei ddisgrifio hefyd fel 'corfforol-iaeth',³ yn amlwg yn mynd yn

erbyn deuoliaeth Gartesaidd neu Blatonig, yn honni, fel y mae, nad yw tystiolaeth empiraidd yn cefnogi syniadau o'r fath. Mae eraill, yn arbennig Anthony Flew yn *Could we survive our own deaths?*, hefyd wedi defnyddio dull a *priori*: trwy ddiffiniad, mae marwolaeth yn golygu diwedd bywyd, felly mae bywyd ar ôl marwolaeth yn ei hanfod yn syniad anghyson. Fodd bynnag, y cyfan mae hyn yn gwneud yw cadarnhau, beth bynnag yw'r byd a ddaw, nid dim ond parhad o'r bywyd hwn ydyw; ni all fod. Ond mae'n rhaid iddo olygu rhyw fath o fodolaeth ymwybodol os ydym yn ei alw'n 'fywyd' (Life, Jim, but not as we know it', i aralleirio'r dyfyniad enwog o *Star Trek*).

(Cafodd Flew ei hun ryw fath o droedigaeth i theistiaeth yn hwyr yn ei fywyd, er bod hyn drwy ail-arfarnu'r dadleuon teleolegol a chosmolegol yn hytrach na thrwy unrhyw brofiad crefyddol. Ond arhosodd yn glir ac yn ystyfnig o amheus o'r posibilrwydd o fywyd ar ôl marwolaeth ac ni thynnodd yn ôl y farn a fynegwyd ganddo yn *Could we survive our own deaths?*)

Yn ddiddorol, nid yw pob un o'r athronwyr agnostig neu sgeptig wedi gwrthod y posibilrwydd o fywyd ar ôl marwolaeth o reidrwydd. Dywedodd Moritz Schlick, aelod o Gylich Vienna, yr oedd eu syniadau wedi arwain at Egwyddor Dilysu Ayer, ei fod yn rhywbeth y gellid ei wirio o bosibl:

In fact I can easily imagine, e.g. witnessing the funeral of my own body and continuing to exist without a body, for nothing is easier than to describe a world which differs from our ordinary world . . . We must

³ Mae amryw o ystyron i'r term 'materoliaeth', ond nid yw hyn fel arfer yn creu dryswch gan fod y cyd-destun yn egluro'r defnydd fel arfer. Ond, byddai'n well gan rai y term 'corfforoliaeth' i ddisgrifio barn Dawkins, er y gall y term hwn hefyd fod yn ddrislyd gan ei bod yn fwy anodd nag mae'n ymddangos i ddechrau i ddiffinio'n union yr hyn a olygir gan y byd corfforol.

Genetig Bywyd ar y Ddaear

conclude that immortality, in the sense defined, should . . . be regarded . . . as an empirical hypothesis, because it possesses logical verifiability. It could be verified by following the prescription 'Wait until you die!'. (Schlick, 1938, pp. 354-355)⁴

Goroesi, eneidiau ac atgyfodiad

Mae athronwyr atheist ac agnostig eraill hefyd heb fod mor bendant â Dawkins a Flew wrth wrthod y posibilrwydd o fodolaeth wedi marwolaeth. Cynigiodd yr athronydd o Gymru, Henry ('H. H.') Price, fod y syniad o fodolaeth anghorfforol, anffisegol yn bosibilrwydd rhesymegol ac na ddylai gael ei ddiystyru'n rhy gyflym gan y rheini sy'n amheus am honiadau crefyddol a dadleuon diwinyddol. Fodd bynnag, nid yw'n honni o gwbl y gellir profi goroesiad anghorfforol yr enaid neu'r hunaniaeth bersonol ac yn sicr byddai ei syniadau'n cael eu hwffio gan Dawkins fel dyfalu ofer ac anwyddonol; ni fyddai Dawkins yn gweld tebygolrwydd athronyddol fel rhywbeth dilys neu argyhoeddiadol. Yn wir, byddai'r dystiolaeth dros fodolaeth eneidiau neu feddyliau anghorfforol yn cael eu hystyried yn simsan gan y rhan fwyaf o empyddion, yn ddim mwy na bod gweld neu brofi ysbrydion a ffenomena tebyg yn amgyffrediad synhwyrau eithriadol a phrofiadau bron â marw, neu allan-o'r-corrff. Gellir esbonio'r rhain i gyd mewn ffyrdd eraill heb fod angen troi at endidau anghorfforol ac, os ydym am gymryd agwedd Hume-aidd,⁵ a'r esboniadau gwahanol hynny sydd bob amser y mwyaf tebygol.

Mae'n sicr y byddai'r rheini sy'n credu mewn enaid sy'n goroesi yn honni nad oes ganddynt broblem â'r farn fod bywyd biolegol yn dod i ben ar farwolaeth, gan honni fod beth bynnag sy'n dod wedyn yn an-fiolegol ac felly fod honiad Dawkins yn

amherthnasol iddyn nhw. Fodd bynnag, mae llawer o Gristnogaeth, Iddewiaeth, ac Islam uniongred wedi gwrthod deuoliaeth a goroesiad yr enaid fel y disgrifiad eithaf o fywyd ar ôl marwolaeth. Dywedodd Aquinas, yn ddiamwys, '*anima mea non est ego*' ('Nid fy enaid ydwyf i'). Iddo ef, roedd unrhyw fywyd ar wahân i'r enaid yn un dros dro (a dros dro hefyd wedi marwolaeth); yn y diwedd, byddai'r marw yn codi eto yn y Farn Olaf. Mae atgyfodi'r meirw, a dderbynnir fel athrawiaeth gan bob ffydd Abrahamaid, yn derbyn bodolaeth gorfforol wedi marwolaeth a gellid ystyried fod hyn yn gwrthdaro'n fwy difrifol â haeriad Dawkins fod natur gynhenid bywyd biolegol yn cau allan y posibilrwydd o fywyd ar ôl marwolaeth.

Yma gallwn droi yn ôl at ysgrifau Paul yn 1 Corinthiaid 15. Mae'r corff a atgyfodwyd yn 'gorff ysbrydol'⁶ (1 Corinthiaid 15:44) ond dim ond os yw'n corff 'daearol' yn marw y byddwn yn cyrraedd y cyflwr hwn. Ni all ein bywyd biolegol presennol gael ei daflu i mewn i'r bywyd tragwyddol; mae marwolaeth yn anghenraid ar gyfer atgyfodiad. Gallen ddeall mai ystyr hyn yw na fydd ein bywyd biolegol presennol yn cael ei ymestyn ac y bydd ein corff atgyfodedig yn cael ei drawsffurfio, ei adnewyddu a'i fywiogi gan rywbeth gwahanol a mwy na'r prosesau cemegol amrwd a daearol sy'n deillio o DNA.

Ni ddylai'r diwinydd a'r crediniwr crefyddol gael problem gyda hyn, ond gallai'r athronydd amheus. Er mwyn ateb y pryderon hyn, datblygodd John Hick, athronydd Cristnogol yn hytrach na diwinydd, ei 'ddamcaniaeth atgynhyrchiad neu *replica*' enwog (ac yn enwog am gael ei gamddeall!) y mae'n ei

⁴ Mae hwn yn debygrwydd diddorol i syniad John Hick fod pob honiad sy'n ymwneud â Duw a'r bywyd tragwyddol o bosibl yn agored i'r hyn a alwdd yn 'wiriad eschatolegol'.

⁵ Hynny yw, fel y mabwysiadwyd gan David Hume neu a briodolwyd iddo.

⁶ Term dryslyd yn athronyddol, ond yna nid athronydd oedd Paul!

Genetig Bywyd ar y Ddaear

chyflwyno yn ei 'Atgyfodiad y person' .⁷ Mae ef hefyd yn ceisio goresgyn un o'r problemau athronyddol mwyaf anodd gydag atgyfodiad y meirw: y toriad mewn gofod ac amser rhwng marwolaeth ac atgyfodiad yr unigolyn. Tra'n bod ni'n fyw, rhan o'r hunaniaeth sy'n ein gwneud 'yr un' person drwy'n bywydau yw'n parhad gofodol-amserol. Gall corff y person newid yn llwyr yng nghwrs bywyd ond mae yna barhad y gallwn ei adnabod. Drwy gydol bywyd corfforol yr unigolyn, mae'r corff bob amser yn rhywle – nid yw'n diflannu nac yn ail-y addeddangos. Felly, sut gall person a atgyfodwyd fod 'yr un person' â'r un oedd yn byw eu bywyd cyn marwolaeth?

Mae Hick yn dechrau drwy awgrymu'r posibilrwydd fod dyn yn diflannu yn Llundain a chopi ohono yn ymddangos yn Efrog Newydd gydag union yr un cyfansoddiad corfforol a chymeriad; byddem yn edrych ar y replica fel 'yr un' person, er gwaethaf y toriad gofodol-amserol. Mae'n awgrymu y gallai Duw hollalluog ail-greu copi seico-gorfforol o bob bod dynol mewn 'gofod arall', a allai gael ei weld fel y byd ar ôl marwolaeth. Byddai copïau fel hyn yn cael eu perffeithio, fel nad yw'r dyn sy'n marw yn cael ei gopïo fel dyn sy'n marw yn unig.

Mae syniadau Hick yn gyfraniad sylweddol i ddilysiad athronyddol y byd a ddaw, ond gwelir eu bod yn codi llawer o gwestiynau anodd hefyd, a gallai un o'r rhain fod yn gysylltiedig â honiad Dawkins nad yw bioleg yn cynnig sail ar gyfer bywyd ar ôl marwolaeth. Os ydym yn mynd i gael ein copïo fel endidau corfforol, i ba raddau fyddwn ni yn endidau *biolegol*? A fydd dal angen i ni fwyta, yfed a chysgu? Os bydd, oni fydd ein cyrff yn dioddef yr un gwendidau ag y maent ar hyn o bryd? Os na, a'n bod yn cael rhyw fath o fodolaeth corfforol wedi'n trawsffurfio a'n hadfywio, ym mha ystyr y mae hyn yn 'gorfforol' mewn unrhyw

ffordd y gallwn ei ddeall ar hyn o bryd? Mae'r crediniwr crefyddol, ac o bosibl y diwinydd, yn dweud 'Mae'n ddirgelwch – gadewch y cyfan i Dduw!' Mae'r athronydd anghrefyddol yn debygol o gamu'n ôl yn anobeithiol (neu efallai yn ddiolchgar!) i sgeptigaeth.

Felly byddai honiad Dawkins fod y ffeithiau biolegol sy'n sail i fywyd yn golygu na all fod bywyd ar ôl marwolaeth yn gallu cael ei ystyried, o leiaf yn rhannol, yn wir – hyd yn oed gan y crediniwr mwyaf pybyr mewn bywyd ar ôl marwolaeth. Mae'n amlwg na all yr hyn sy'n dilyn y bywyd hwn fod yn barhad ohono; mae hyn yn amhosibl. Ond mae Dawkins wedi honni mwy na hyn a byddai llawer yn dweud, gan fod bywyd yn fwy na bioleg, ei fod wedi defnyddio ffeithiau biolegol diamheuol i ddod i gasgliadau athronyddol direswm. Byddai'r crediniwr crefyddol yn sicr yn ychwanegu ei fod hefyd wedi anghofio am Dduw hollalluog a hollgariadus, y mae ei bwerau a'i ddibenion ymhell y tu hwnt i ddychymyg dyn.

⁷Mae hyn yn achosi problem i'r Cristnogion hynny sy'n mynnu mai atgyfodiad Iesu yw'r model ar gyfer yr atgyfodiad cyffredinol os ydynt yn credu hefyd fod corff marw Iesu wedi ei 'godi' yn llythrennol.

Geirfa

Abrahamaidd (Abrahamic): y crefyddau Abrahamaidd yw Iddewiaeth, Cristnogaeth ac Islam. Mae pob un ohonynt yn ystyried Abraham fel eu tad ysbrydol, mae rhai dilynwyr yn mynd ymhellach ac yn ei ystyried yn gyndad iddyn nhw.

deuolwr (dualist): gair sy'n cael ei ddefnyddio mewn nifer o ffyrdd mewn athroniaeth a diwinyddiaeth. Yn yr erthygl hon, mae'n cyfeirio at y syniad fod gan fodau dynol enaid anghorfforol a all fodoli yn annibynnol ar y corff ffisegol wedi marwolaeth.

empiriaeth (empiricism): y ddamcaniaeth fod pob gwybodaeth a syniad yn deillio o brofiad sy'n seiliedig ar y synhwyrau. Ni all gwybodaeth fynd y tu hwnt i brofi, arsylwi ac arbrofi.

metaffisegol (metaphysical): yn ymwneud â metaffiseg, sef, i roi ei ddiffiniad cywir, y gangen o athroniaeth sy'n astudio natur eithaf bodolaeth, realiti a phrofiad; ond sydd hefyd yn cael ei ddefnyddio'n ddilornus weithiau i awgrymu syniadau a chysyniadau sy'n mynd y tu hwnt i'r empiraidd a'r hyn y gellir ei brofi ac sy'n ymylu ar y goruwchnaturiol.

corfforolaeth (physicalism): fod y byd real yn cynnwys y byd corfforol yn unig. (Gw. hefyd troednodyn 3.)

rhydwythol (reductionist): safbwynt athronyddol sy'n dehongli system gymhleth fel cyfanswm ei rannau a dim mwy. Mae'n derm sy'n cael ei ddefnyddio'n ddilornus weithiau, ond gall agweddau rhydwythol, yn yr amgylchiadau cywir, fod yn ddefnyddiol.

Pwyntiau trafod

1. Yn 1 Corinthiaid 15, mae Paul yn mynnu fod dyfalu am y bywyd ar ôl marwolaeth ac, yn benodol, am natur y corff a atgyfodwyd, yn ddibwys ac aneffnyddiol yn y pen draw. A yw hyn yn gyngor da?
2. Mae rhai meddylwyr crefyddol yn rhoi pwys mawr ar y byd a ddaw (mae rhywun yn meddwl am farn Teresa o Avila fod yn ein bywyd ar y ddaear yn 'un noson mewn gwesty anghyfyreddus') ac yn awgrymu y dylem weld popeth *sub specie aeternitatis* – hynny yw, mewn perthynas â'r tragwyddol. Mae eraill, yn cynnwys nifer o feddylwyr Iddewig, yn credu y dylai'n prif sylw

fod ar fyw ein bywyd ar y ddaear. Pa un gredwch chi yw'r agwedd orau?

3. Mae Richard Dawkins yn gwrthwynebu'n gryf y syniad fod ei syniadau yn awgrymu byd mecanistig a dienaidd; mae'n honni mai dim ond pan mae rhywun wedi cael gwared ar y syniadau a'r 'memes' hen ffasiwn, afresymol a pheryglus sy'n gysylltiedig â Duw a chrefydd, yn cynnwys y byd a ddaw, y gallant werthfawrogi'n llawn ryfeddodau naturiol y byd a gorchestion deallusol ac artistig ysblennydd dynoliaeth. Sut ydych chi'n ymateb i hyn?

Cyfeiriadaeth a darllen pellach

- Aquinas, Thomas. (1272-3?). Commentary on St. Paul's First Letter to the Corinthians. In Aquinas: *Selected philosophical writings* (pp. 192-193). Ed. Timothy McDermott, Oxford: Oxford University Press, 1993.
- Dawkins, Richard. (1976). *The selfish gene*. Oxford: Oxford University Press.
- Dawkins, Richard. (1995). *River out of Eden*. London: Weidenfeld and Nicholson.
- Dawkins, Richard. (1998). *Unweaving the rainbow*. Boston, Massachusetts: Houghton Mifflin.
- Dawkins, Richard. (2006). *The God delusion*. London: Bantam Press.
- Flew, Antony. (1998) Could we survive our own deaths? The Secular Web. Available at: https://infidels.org/library/modern/antony_flew/survival.html.
- Schlick, Moritz. Meaning and Verification. In *Gesammelte Aufsätze, 1926-1936*, Vienna: Gerold, 1938, pp. 337-368 (First published in *The Philosophical Review*, 44, 1936; available at: https://en.wikisource.org/wiki/Meaning_and_Verification)
- Price, Henry. (1953) Survival and the idea of 'Another World', *Proceedings of the Society for Psychological Research*, 50, pp. 1-25.
- Hick, John. (1973) *Philosophy of Religion*. Englewood Cliffs, New Jersey: Prentice Hall.
- Hick, John. (1976) Resurrection of the person. In *Philosophy of religion: Selected readings* (pp. 529-539). Eds. M. Peterson, W. Hasker, B. Reichenbach and D. Basinger, Oxford: Oxford University Press, 2006.
- Hick, John. (1976) *Death and Eternal Life*. London: Collins.

Mae Mark Harrison wedi ymddeol bellach a bu'n dysgu Diwinyddiaeth, Athroniaeth a Moeseg yn Chweched Dosbarth SRC Bede yn Billingham (hen Goleg Chweched Dosbarth Bede) o 2000 i 2015.

Ar Fwdhaeth a Thrais

Phra Nicholas Thanissaro

Gall pobl o'r tu allan synnu i weld Bwdhyddion yn cymryd rhan mewn rhyfeloedd neu'n cymeradwyo byddinoedd sefydlog a gorfodaeth filwrol yn eu gwledydd. Mae'r erthygl hon yn darlunio symudiad hanesyddol ym meddylfryd Bwdhyddion am drais, o heddychiaeth y cyfnod cynnar, drwy amddiffyn a chyfiawnhau trais yn ddiweddarach, i gyfnod diweddar o drais a ffiwdaliaeth. Amlinellir chwe esgus a ddefnyddir gan Fwdhyddion i gyfiawnhau eu hanes amherffaith ar drais, ynghyd â gwrth-ddadleuon.

Cysylltiadau â'r fanyleb:

EDEXCEL Papur 4, Opsiwn 4A: Bwdhaeth: Pwnc 6 Crefydd a chymdeithas 6.1 Dehongli a gweithredu ahimsā i Fwdhydd yn y byd modern (4) a) Yr Argymhelliad Cyntaf – ymatal rhag niweidio unrhyw beth byw, dehongliad ahimsā gan Fwdhyddion gydag enghreifftiau penodol o sut gellir byw hyn, fel llysieuaeth, bywoliaeth gywir a bod yn rhan o'r lluoedd arfog. b) Rôl credoau ac ystyriaethau eraill wrth fyw ahimsā, yn cynnwys gwahaniaethau o ran eu gweithredu a'u pwysigrwydd mewn traddodiadau gwahanol, ac yn esiampl y Bwdha. Dylid cyfeirio'n benodol ar ddarnau o'r Pali Canon a'r Lotus Sutra. Gan gyfeirio at syniadau y 14eg Dalai Lama a T Bartholomeusz Hefyd:

EDUQAS Eifen 1: Astudiaeth o Grefydd: Opsiwn D: Astudiaeth o Fwdhaeth, Thema 4: Arferion crefyddol sy'n ffurfio hunaniaeth grefyddol

OCR Datblygiadau mewn meddwl Bwdhaidd (H573/06): 3 Byw, Pwnc: Byw yn Unol â Dharma, rhinweddau dim trais

Cyflwyniad

Tan yr 1950au byddai'r rhan fwyaf o bobl wedi ystyried fod trais yn rhagrithiol i Fwdhyddion. Yn gyffredinol, nid oedd honiad Rahula 'nad oedd un diferyn o waed wedi cael ei golli yn enw tröedigaeth neu ledaeniad Bwdhaeth' prin wedi cael ei herio. Gwaith arloesol Paul Demiéville a gyflwynodd dystiolaeth fod trais wedi ymddangos dro ar ôl tro yn hanes Bwdhaeth ond ei fod wedi osgoi'r *gormodedd* eithafol a oedd mor gyfarwydd mewn crefyddau eraill.

Yn wir, mae'r cysyniad o 'drais' yn creu problem fawr i'r meddwl Bwdhaidd, ond yn yr erthygl hon rwyf wedi'i ddiffinio fel 'peri niwed corfforol neu farwolaeth i unigolyn arall – p'un ai'n cael ei bortreadu'n symbolaidd neu fel rhan o weithred gymdeithsol, megis cosb neu ryfela'. I Fwdhaeth, nid oedd gan y gair *ahimsā* (neu *avihimsā*) yr ystyr diamwys 'dim trais' a fyddai wedi'i gael i Mahatma Gandhi. I Fwdhyddion, yn hytrach, mae gan yr gair arlliw o ystyr sy'n nes at 'dim

Ar Fwdhaeth a Thrais

niwed. Gallai dim niwed fod yn fwy cywir i ddisgrifio gwellhad sy'n golygu triniaeth boenus. Mae'r ysgrythurau Bwdhaidd yn rhoi'r enghraifft o blentyn gyda phen neu garreg yn sownd yn eu gwddf, gyda'r Bwdha o blaid ymyrryd gyda grym hyd yn oed os yw'n achosi poen neu waedu: enghraifft o drais sy'n dod â budd. Gallai trais i 'leihau niwed' gyfeirio o bosibl at ystod eang o weithredoedd, yn cynnwys hunan-amddiffyn, artaith, milwroli, hunan-laddiad, troseddau casineb, rhyfela ymosodol, rhyfela amddiffynnol neu ladd ar sail anrhydedd – ond yma byddaf yn canolbwyntio ar drais systemig (h.y. wedi'i ganiatau gan y sefydliad), megis rhyfel a chosb dreisgar.

Newidiadau hanesyddol yn yr agwedd Fwdhaidd tuag at drais

Nid yw'r agwedd Fwdhaidd at drais wedi aros yn ddigifnewid dros y canrifoedd – ac *nid* yw'r newidiadau yn adlewyrchu dim ond llacio agweddau tuag at drais yn yr oes fodern. Yn gyffredinol, gallech ddweud fod y testunau cynnar yn dechrau drwy bledio heddychiaeth ochr yn ochr ag amwysedd am drais y wladwriaeth neu tuag at hereticiaid. Mae testunau ac esboniadau diweddarach yn dangos ymraniad tuag at ddiffyniaeth heddychol, ar y naill law, a chyfiawnhad wedi'i gryfhau dros drais, ar y llaw arall.

Ar yr ochr heddychiaeth, mae cyfeiriadau o'r testunau Bwdhaidd cynharaf o blaid dim trais mewn ffordd a fyddai yn erbyn rhyfel neu gosb dreisgar, yn gwahardd cymryd bywyd neu hyd yn oed adael i eraill wneud hynny – gan resymu oherwydd bod ar bawb ofn marwolaeth, ni ddylai Bwdhyddion daro na lladd. Mae'r ysgrythur yn mynnu na all casineb fyth gael ei dawelu gan gasineb (pellach) ac na ellir ystyried unrhyw un sydd heb roi'r gorau i drais, yn sanctaidd. Mae rheolau mynachaid yn gwahardd mynachod rhag hyd yn oed *gwyllo* brwydrau, ac yn hytrach na chlodfori

rhyfel, rhagfynegodd yr Yodhājiva Sutta y byddai milwyr yn cael eu hail-eni yn uffern. Mae esboniadau Pali cynnar yn sôn am adegau ym mywyd y Bwdha pan geisiodd rwystro rhyfel. Mae esboniadau sy'n adrodd am enghreifftiau o fuddugoliaethau a gafwyd heb dywallt gwaed yn rhoi bri ar y bwriad i ddal y gelyn yn fyw, ac mae'r Seyya Jātaka yn cynnig fel model rôl, brenin sy'n gwrthod ymladd yn ôl ond yn ennill y dydd yn y pen draw. Mae'r *Ovādapāṭimokkha* yn mynnu hefyd y dylai mynachod sy'n pregethu ac yn lledaenu'r Dhamma ddelio ag anghredinwyr heb ymosod arnynt yn eiriol nac yn gorfforol.

Er gwaetha'u heddychiaeth gyffredinol, mae'r testunau cynnar yn dal yn fwriadol amwys am y fyddin, efallai fel na fyddai milwyr yn ffoi er mwyn mynd yn fynachod Bwdhaidd, neu lle'r oedd rheolwyr yn rhanddeiliaid pwysig i gefnogi cynhaliaeth a thwf mynachaeth ac athrawiaeth Fwdhaidd. Er bod mynachod Bwdhaidd wedi troi eu cefnau ar gymdeithas, maent yn dal i ddibynnu arni am elusen. Roedd Bwdhaeth gynnar yn cymryd pŵer y brenin a'r wladwriaeth yn ganiataol a defnydd y brenin o rym neu drais wedi'i drefnu. Ymddengys hefyd fod hawl y wladwriaeth i gynnal byddin sefydlog yn cael ei derbyn gan y Bwdhyddion. Lle'r oedd y Bwdha yn ymyrryd i stopio rhyfeloedd, ymddangosai ei fod yn gwneud hynny ddim ond i helpu ei bobl ef ac nid oedd yn gwahardd rhyfela yn llwyr – gan arwain ysgolheigion i'r casgliad fod rhyfel yn ymddygiad derbynol ar y pryd.

Swyddogaeth arferol mynachod yw 'dweud y gwir wrth rym' yn hytrach nag arfer grym – polisi 'hyd braich'. Fodd bynnag, bu sawl cynsail hanesyddol lle mae Bwdhyddion wedi glynu wrth bwysigion oedd yn adeiladu ymerodraeth ac mae *Sanghas* y gorffennol wedi bod yn ddarostyngedig i ac yn gysylltiedig â rheolwyr ymladdgar, treisgar y dydd. Gwelir hyn yn glir yn nylanwad

Ar Fwdhaeth a Thrais

ymddangosiadol ffiwdaliaeth yn Tibet cyn comiwnyddiaeth neu oes Heian Japan ar drais Bwdhaidd – trais a ddiflannodd bron yn llwyr wedi i ffiwdaliaeth gael ei disodli. Dim ond cyn belled â'i fod er buddiannau Bwdhaeth yr oedd trais y wladwriaeth yn Tibet yn cael ei weld yn dderbyniol.

Yn hytrach na gwrth-ddweud ysgrythurau cynharach, mae ffynonellau Mahāyāna diweddarach yn ychwanegu pwysau ar ddysgeidiaethau Bwdhaeth ar ddim trais. Honnodd Vasubandhu hyd yn oed os mai *un* person sy'n gwneud y lladd mewn rhyfel, mae'r *lleill* i gyd yn rhan ohono gan fod ganddynt nod cyffredin. Awgrymodd y *Satyakaparivarta* y dylai brenhinoedd, cyn troi at ryfel, geisio'n gyntaf bod yn gyfaill, helpu neu ddychryn y gelyn i ffwrdd.

Er gwaetha'r argraff unfurf o heddychiaeth mewn Bwdhaeth, mae'n amlwg fod hanes blaenorol Bwdhaeth wedi methu'n aml â byw yn ôl y delfrydau ysgrythurol a grybwyllwyd. Cafwyd enghreifftiau hefyd o driniaeth dreisgar i hereticiaid a oedd yn methu â chael eu hargyhoeddi ar ôl dadleuon lle'r oedd llawer yn y fantol. Mae'r *Aśokāvadāna* Sanscrit yn adrodd sut y lladdodd yr ymerawdwr Bwdhaidd ymddangosiadol eiconig Aśoka 18,000 o Jainiaid. Bu mwy na 400 o achosion o fynachod Bwdhaidd yn arwain gwrthryfeloedd arfog yn y Japan cyn-fodern, mynachod Tsieineaidd yn arwain gwrthryfeloedd yn nheyrnlin y Tang, y 5ed Dalai Lama (1617-82) yn arwain terfysg treisgar yn Tibet, Bwdhyddion yn annog gwrthryfel ethnig treisgar yn Sri Lanka yn y cyfnod 1983-2009, Aum Shirikyō yn cyflawni'r ymosodiad nwy nerfau ar yr isffordd yn Tokyo a rhan Bwdhyddion Myanmar yn y trais ethnig yn erbyn y Rohingyaans.

Felly daeth yn bwnc o ddiddordeb ysgolheigaidd i gyfrif am y ffyrdd y mae Bwdhyddion yn cyfiawnhau trais ac i benderfynu a yw'r rhain yn llithriadau o fath o ddelfryd heddychlun neu'n fethiant

i wynebu gwreiddiau trais a all fod yn *gynhenid* i foeseq Fwdhaidd.

Esgusodion Bwdhaidd am drais a gwrth-ddadleuon posibl

Ceir chwe chyfiawnhad dros drais gan Fwdhyddion yn aml: cyfiawnhad dulliau medrus, cyfiawnhad marwolaeth rithiol, cyfiawnhad cenedlaetholdeb grefyddol, cyfiawnhad perthynolaidd, cyfiawnhad oes lygredig a chyfiawnhad dim dogma. Edrychwn yn fras ar bob un yn ei dro, gan roi enghreifftiau ac awgrymu rhesymau 'yr un mor Fwdhaidd' dros wrthod y cyfiawnhau hyn.

1. *Cyfiawnhad dulliau medrus*

Mae cyfiawnhad dulliau medrus yn golygu'r gosodiad y gall dulliau niwtral neu anfedrus fel rhyfela gael eu cyfiawnhau os yw'r casgliad yn fedrus. Er nad yw'n ymddangos fod ysgol Theravāda yn cynnwys damcaniaeth 'rhyfel cyfiawn' (ar wahân i'r rheidrwydd ymarferol o ymladd yn ôl yn wyneb ymosodiad direswm), i'r ysgol Mahāyāna *gall* rhyfela ddod oddi mewn i gwmpasiad dulliau medrus. Yn hanesyddol defnyddiwyd rhesymeg dulliau medrus gan Fwdhyddion i gyfiawnhau trais wrth drosi anghredinwyr i Fwdhaeth; amddiffyn eiddo, tiriogaeth neu ddysgeidiaethau Bwdhaidd; neu lle gwelir lladd fel gweithred o dosturi, er mwyn rhoi rhywun allan o'u poen neu gosbi'r rheini sydd wedi arfer Bwdhaeth yn anghywir.

Enghraifft o hyn yw'r rhyfel yn Sri Lanka yn erbyn yr LTTE yn y cyfnod 1983-2009, oedd yn defnyddio rhwymedigaeth ymddangosiadol i warchod y grefydd Fwdhaidd a'r Dharma (Bartholomeusz, 1999). Byddai gwrthddadl Fwdhaidd bosibl i 'dulliau medrus' o'r fath yn cael ei darlunio gan addewid nodweddiadol *di-drais* Thich Nhat Hanh i osgoi trais *hyd yn oed* i amddiffyn sefydliadau, adeiladau neu ysgrythurau Bwdhaidd. Mae agweddau o fasnacheiddio Bwdhaidd yn

Ar Fwdhaeth a Thrais

codi risg gwrthdaro, a dyna pam y gwnaeth Soseki Musō (1275-1351) gymell mynachod i ildio eiddo gwerthfawr yn hytrach na chario arfau.

2. *Cyfiawnhad marwolaeth rithiol*

Mae'n ymddangos fod pedwar math o gyfiawnhad marwolaeth rithiol dros drais: dadleuon lle nad yw lladd unigolion arbennig (nid Bwdhyddion fel arfer) yn 'cyfrif' fel lladd; lle nad oes llofrudd na dioddefwr (oherwydd ystyrir fod y ddau yn perthyn i lefelau arferol); dadleuon lle mae karma lladd yn cael ei osgoi drwy fod â *bwriad* medrus; a dadleuon lle mae'r cyfan yw lladd yw cyflawni canlyniadau karma a oedd yn dod i'r dioddefwr beth bynnag.

Mae enghreifftiau o gyfiawnhad marwolaeth rithiol lle mae lladd '*ddim* wir yn lladd' yn cynnwys tueddiad cudd i weld 'yr arall' fel diafol, a welir gan yr ymateb treisgar i'r terfysg Mwslimaidd yn ne Gwlad Thai neu sylwadau enwog Kittivuddho am ladd comiwnyddion. Wrth wynebu esgusodion Bwdhaidd am drais sy'n cynnwys marwolaeth rithiol mae angen osgoi 'cymysgu' dwy lefel gwirionedd Bwdhaidd (h.y. yr arferol [lokiya] a'r trosgynnol [lokuttara] sy'n arwain y rhai sy'n ei gyflawni i greu fod lladd (h.y., gwirionedd arferol) yn ddibwys ar lefel drosgynnol. Yn y cyfamser, mae angen adnabod y bygythiadau a welir mewn rhai ffynonellau testunol fel dim mwy na gor-ddweud, rhethreg neu ddefod – oherwydd, yn gyffredinol, nid am ladd y mae'r darnau hyn, ond yn hytrach dyfais ydynt i wneud dysgeidiaethau diafael yn fwy cofiadwy.

3. *Cyfiawnhad cenedlaetholdeb crefyddol*

Mae 'cyfiawnhad gwladwriaeth ddeuol' yn ffordd o honni ei bod yn fuddiol, neu o leiaf yn *gyfiawn*, fod gwladwriaeth yn cael ei rheoli gan lywodraethwr a chrefydd law yn llaw – syniad sy'n arwain at ddau fath

o gyfiawnhad dros drais: i ddechrau, y dylai Bwdhyddion gyfiawnhau unrhyw ymdrechion gwleidyddol i sefydlu neu ddiogelu Bwdhaeth fel crefydd *wladwriaethol* ac, yn ail, i esgusodi'r ffaith fod penaethiaid y wlad yn defnyddio trais i ddiogelu sofraniaeth, cyfraith a threfn drwy ddulliau treisgar. O ganlyniad i groestoriadaeth luosog, gall mynachod yn Sri Lanka neu Wlad Thai greu ei bod yn ddyletswydd sanctaidd arnynt i gymryd rhan mewn gwasanaethu eu gwlad (lle mae crefydd y wladwriaeth yw Bwdhaeth) allan o angen i grefydd gael tiriogaeth ddiogel (cf. Seioniaeth). Wrth wynebu'r esgusodion Bwdhaidd am drais sy'n gysylltiedig â chenedlaetholdeb Bwdhaidd, mae angen meddwl yn ofalgar iawn pan ddaw hi i'r pen a chywilyddio yn digwydd ar ffurf cyhuddiadau o anffyddlondeb neu lwfrdra. Mae angen i Fwdhyddion dalu mwy o sylw i *gynnwys* di-drais yr hynny maent yn ei warchod (didwylledd a thrugaredd) a llai o sylw i'r angen am gynhwysydd gwleidyddol cryf i'r diwylliant hwnnw.

4. *Cyfiawnhad perthynolaidd*

Apelir am gyfiawnhad perthynolaidd dros drais fel arfer pan mae'r dadleuwyr yn dewis trais fel y lleiaf o ddau ddrwg. Mae cyfiawnhad perthynolaidd yn fwy cyffredin yn y Mahāyāna na'r Theravāda, oherwydd yn y Mahāyāna, mae trugaredd yn tueddu i drechu dim trais. Mae enghreifftiau o'r math hwn o gyfiawnhad yn cynnwys lladd un i arbed llawer, fel yn enghraifft ysbeiliwr sy'n prepian yn cael ei ladd i gadw ymosodiad annisgwyl yn gyfrinach. Defnyddiodd Juzan berthynolaeth fel hyn i gyfiawnhau lladd ychydig i arbed bywydau nifer pan oedd yn recriwtio Bwdhyddion Tsieineaidd i ymladd yn Rhyfel Corea 1951-3. Wyneb yn wyneb ag esgusodion Bwdhaidd dros drais sy'n cynnwys perthynolaeth, gellid dadlau ei bod yn well osgoi *unrhyw* ddyrgioni yn hytrach na dewis y lleiaf o

Ar Fwdhaeth a Thrais

ddau ddrwg – ac ymwrthod â'r demtasiwn i ddadbersonolediddio'r meirw yn ddim mwy nag ystadegau.

5. Cyfiawnhad oes lygredig

Weithiau mae natur lygredig yr oes hanesyddol yn cael ei defnyddio fel cyfiawnhad, gyda'r rhesymu fod amserau eithafol yn gofyn am fesurau eithafol. Yn nodweddiadol, mae esgusodion milflwyddol o'r fath yn rhagweld trychinebau sydd ar fin digwydd ac yn eu sgil daw dedwyddwch materol. Roedd wyth gwrthryfel a wnaed yn erbyn y llywodraethau Siamaid/Thai rhwng 1699-1959 wedi'u canoli ar ddyfodiad addawedig y Bwdha Maitreya. Adroddir fod Ryōgen wedi dweud fod adeg o ryfel ffug [*mappō*] yn gofyn am atebion eithafol. Yn y Bhaddali Sutta, honnir mai dim ond pan mae Dharma wedi dirywio y mae angen cosbau – fel pan mae ar geffyl a hyfforddwyd yn wael angen 'ffon' dim ond pan mae'r 'foronen' wedi methu. Yn wyneb esgusodion Bwdhaidd am drais sy'n golygu hawlio oes lygredig, dylid cofio fod ffynonellau ysgrythurol fel yr Aggañña Sutta yn dangos mai dewisiadau a gweithredoedd pobl sy'n *achosi* llygredd cyfnod, nid fel arall.

6. Cyfiawnhad dim dogma

Mae categori olaf cyfiawnhad dros drais yn seiliedig ar ddiffyg ymlyniad at ddogma, sy'n gwrthdroi pob gwerth. Er enghraifft, roedd Yi-huan (c. 867) yn cymhell y ffyddloniaid Bwdhaidd i 'ladd y Bwdha, patriarchiaid a seintiau' – mewn ymgais efallai i wasgaru 'trais yr absoliwt' (i ddefnyddio cysyniad gan Arendt, 1970, p. 56) – lle gall trais ddigwydd yn sgil *unrhyw* bolareiddio safbwyntiau. Nod hyn oedd tynnu sylw at y camgymeriad o feddwl fod crefydd Bwdha wedi'i lleoli mewn unigolyn arbennig neu wedi'i hallanoli mewn un arall. Wrth wynebu esgusodion Bwdhaidd dros drais sy'n golygu dim dogma, dylai athrawiaethau

fel 'os ydych yn cyfarfod y Bwdha ar y ffordd, lladdwch ef' gael eu rhoi yng nghyd-destun perygl ymlynu at safbwyntiau, ac nid eu cymryd yn llythrennol.

Casgliadau

Felly, a ddylid dod i'r casgliad fod rhai Bwdhyddion ddim ond yn digwydd bod yn dreisgar neu fod rhai pobl dreisgar ddim ond yn digwydd bod yn Fwdhyddion; neu a ddylai Bwdhyddion gymryd mwy o gyfrifoldeb dros wneud yn siŵr fod pobl dreisgar yn mynd yn *llai* treisgar? Dangosodd yr erthygl hon fod nifer o ffyrdd o gyfiawnhau trais wedi'u gwneud ar seiliau lled-Fwdhaidd – ond rwyf wedi dadlau nad yw'r *un o'r rhain* yn gwbl ddiffynadwy. Mae Bwdhaeth yn grefydd gymharol oddefgar. Gall eithriadau 'brofi rheol' dim trais mewn Bwdhaeth, ond serch hynny *mae* angen i Fwdhaeth daclo trais. Yn fy mhrofiad i, mae Bwdhyddion yn aml yn methu ag ymyrryd pan mae trais yn dechrau – sy'n agor maes newydd o ymchwil ysgolheigaidd i Fwdhyddion ynghylch moeseg *anwaith* (omission). Nid yw Bwdhyddion yn rhydd rhag syniadau anfedrus. Er bod egwyddorion Bwdhaidd uwch yn condemnio rhyfel, yn enwedig rhyfeloedd i gymryd tiriogaeth; mewn ymarfer, gall Bwdhyddion gyfiawnhau rhyfel i'w hamddiffyn eu hunain rhag ymosodiad allanol, ond maent angen cynnal tosturi er mwyn atal amlhad diangen.

Er gwaetha'r eithriadau a ddisgrifiwyd, mae gan Fwdhaeth lawer o falm iachau o hyd i'w gynnig i fyd treisgar, yn arbennig trais diddiwedd byd sydd yng ngafael trachwant, casineb a rhith. Dylid cofio nad yw'r rhai sy'n cyflawni trais yn wyriadau dynol ond yn rhannol yn bypedau i we o ffactorau cyflyrol sy'n effeithio ar bawb – ac nid dim ond cyflawnwyr trais.

Termau

LTTE: Liberation Tigers of Tamil Eelam.

Pwyntiau trafod

1. Yn Sri Lanka, roedd milwyr Bwdhaidd yn rhesymu eu bod yn dwyn arfau nid gyda'r bwriad o ladd neu allan o ddieter personol, ond gyda'r bwriad medrus o arbed y wlad ac er y budd cyffredin. Pa ddadleuon Bwdhaidd allech chi eu defnyddio i geisio'u hargyhoeddi yn wahanol?
2. Gan mai dioddefaint yw bywyd i gyd ym mydolwg y Bwdhydd, oni fyddai lladd eich cymydog yn gwneud ffafr â nhw?

Cyfeiriadaeth

Arendt, H. (1970). *On violence*. San Diego, California: Harvest.

Bartholomeusz, T. (1999). In defense of Dharma: Just-war ideology in Buddhist Sri Lanka. *Journal of Buddhist Ethics*, 6, 1-16.

Jerryson, M.K., & Juergensmeyer, M. (2010) (Eds.). *Buddhist warfare*. New York: Oxford University Press

Tikhonov V., & Brekke, T. (Eds.). *Buddhism and violence: Militarism and Buddhism in modern Asia*. New York and London: Routledge.

Zimmermann, M. (Ed.) (2006). *Buddhism and violence*. Lumbini: Lumbini International Research Institute.

Mae Phra Nicholas yn fynach Bwdhaidd ers 24 mlynedd Mae wedi cymhwyso fel athro mewn myfyrdod o Gymdeithas Feddygol gyflenwol y DU. Yn gysylltiedig â'r 'Dhammakaya Foundation', cymhwysodd hefyd fel athro ac ymarferydd MBTI. Fel ysgolhaig-ymarferydd, a Chymrawd Cysylltiol ym Mhrifysgol Warwick, (Ile cafodd Ddoethuriaeth), mae wedi cyhoeddi'n eang mewn cyfnodolion a adolygwyd gan gymheiriaid ar ffurfio hunaniaeth Fwdhaidd mewn arddegwyr ac mae'n parhau i ymchwilio i apêl myfyrio yn y Gorllewin. Ar hyn o bryd mae'n darlithio mewn 'Living Buddhism' a 'Religious Individualisation' yn Ysgol Ddiwinyddiaeth Claremont, Prifysgol California a Phrifysgol Willamette, Oregon. Ei lyfr diweddaraf, sy'n edrych ar amrywiaeth Fwdhaidd drwy Fath Seicolegol, yw The Intuitive Buddhist (Peter Lang, 2020).

Rhai Tueddiadau mewn Eco-ddiwinyddiaeth

Samuel Tranter

Mae'r erthygl yn cynnig trosolwg o rai tueddiadau mewn eco-ddiwinyddiaeth (ecotheology). Mae'n cyflwyno'r darlennydd i feddylwyr allweddol, sy'n arddel ystod o wahanol safbwyntiau, ac i nifer o gysyniadau craidd yn y drafodaeth gyfoes. Mae'r casgliad yn dangos rhai ffyrdd lle nad yw diwinyddiaeth Gristnogol wedi damcaniaethu'n unig am foeseg amgylcheddol, ond wedi bod yn sail i weithgaredd amgylcheddol ymarferol.

Cysylltiadau â'r fanyleb:

AQA 3.2 Astudio crefydd a deialogau: B. Cristnogaeth – Ymddygiad da ac egwyddorion moesol allweddol, Arglwyddiaeth a stiwardiaeth: . . . credoau am rôl Cristnogion fel stiwardiaid anifeiliaid a'r amgylchedd naturiol a sut mae'r ddealltwriaeth sy'n newid o effeithiau gweithgareddau dynol ar yr amgylchedd wedi effeithio ar y rôl honno

EDEXCEL Papur 2 Crefydd a Moeseg: Pwnc 1.1 Materion amgylcheddol

Hefyd:

OCR Crefydd a moeseg (H573/02): 3. Moeseg Gymhwysol, Pwnc: Moeseg Fusnes, cyfrifoldeb cymdeithasol corfforaethol... fod gan fusnes gyfrifoldeb tuag at y gymuned a'r amgylchedd

Cyflwyniad

Dros y deugain mlynedd ddiwethaf, mae diwinyddiaeth Gristnogol wedi rhoi mwy o sylw i faterion amgylcheddol. Yn ddefnyddiol, mae Andrew Village yn amlinellu rhywfaint o gefndir y troi at ecoleg mewn erthygl gynharach yn y cyfnodolyn hwn (Village, 2019). O fewn y datblygiad bras hwn ar draws bron pob un o'r eglwysi Cristnogol, mae nifer o agweddau gwahanol wedi ymddangos. Mae pob un ohonynt yn ceisio mynd i'r afael â materion fel newid hinsawdd, dirywiad yr amgylchedd a cholli

bioamrywiaeth o safbwynt Cristnogol. Yr hyn sy'n eu gwahaniaethu yw'r adnoddau diwinyddol maent yn troi atyn nhw er mwyn beirniadu sut mae dynoliaeth wedi cam-drin y byd naturiol a cheisio ysbrydoli trawsnewid yn ein hagwedd a'n gweithredoedd.

Yn yr erthygl hon, felly, rwy'n edrych ar rai tueddiadau o dan dri phennawd: (1) esboniadaeth (*hermeneutics*) ecolegol, lle mae ysgolheictod ar destunau awdurdodol Cristnogaeth yn cael ei wneud gyda golwg ar faterion

Rhai Tueddiadau mewn Eco-ddiwinyddiaeth

amgylcheddol; (2) eco-ddiwinyddiaeth: safbwyntiau athrawiaethol, lle mae myfyrio ar ddysgeidiaethau creiddiol y ffydd Gristnogol yn cael ei wneud yng ngoleuni heriau amgylcheddol; a (3) diwinyddiaeth eco-gyfiawnder, lle mae materion cyfiawnder cymdeithasol (yn cynnwys cyfiawnder rhwng y rhywiau) yn cael eu hintegreiddio gyda thrafodaeth am ecploetio byd Natur a'r ymchwil am ysbrydolrwydd mwy cynaliadwy.

Ni fwriedir i'r trosolwg hwn roi darlun cynhwysfawr o'r holl ymatebion diwinyddol Cristnogol i heriau ecolegol ein hoes, yn hytrach dim ond rhoi blas i'r darlennydd o rai o'r themâu a'r cwestiynau cyfoes. Ar ben hynny, mae'n bwysig nodi mai dim ond diferyn yw hwn o gyfanswm y myfyrio crefyddol Cristnogol sy'n ymddangos, a geir ei fynegi mewn ffyrdd mwy a llai ffurfiol mewn gwahanol fathau o litwrgi ac addoliad, mewn celf Gristnogol, ac mewn gweddïau gosod a digymell niferus. Mae'r casgliad yn dangos rhai ffyrdd y mae diwinyddiaeth Gristnogol nid dim ond wedi damcaniaethu am foeseg Gristnogol, ond wedi bod yn sail i weithgarwch amgylcheddol ymarferol.

Esboniadau beiblaidd ecolegol

Mae hermeniwteg neu esboniadaeth yn ymwneud â dehongli testunau, ac yn yr achos hwn testunau beiblaidd, felly pan fyddwn yn sôn am hermeniwteg beiblaidd ecolegol, rydym yn golygu darllen Ysgrythur Gristnogol gyda'r nod o'i darllen gyda golygon amgylcheddol. Gall hyn gwmpasu casgliad cyfan o destunau a strategaethau esboniadol, o olrhain gweinidogaeth Iesu gan edrych sut mae'n ymwneud ac yn dysgu am Natur, i fyfyrion ar gwmpas cyfanfydol gweledigaeth Paul am waredigaeth (gweler, er enghraifft, Rhufeiniaid 8). Yn wir, mae esboniadau beiblaidd ecolegol yn ymestyn yn y bôn i holl rychwant y Beibl (Horrell, 2013), ac

mae cynllun sy'n mynd rhagddo o'r enw 'The Earth Bible Project' yn ceisio cynhyrchu darlenniadau o ran fawr o'r Ysgrythur sy'n rhoi blaenoriaeth i safbwyntiau ecolegol.

Un agwedd arbennig o ffrwythlon at esboniadau beiblaidd ecolegol fu dehongli'r Ysgrythur yn '*amaethyddol*'. O fewn y dull hwn, mae diwinyddion yn ceisio rhoi sylw i arwyddocâd Natur a bywyd amaethyddol o fewn diwyllianau awduron y testunau beiblaidd (Davis, 2009). Ar y naill law, ymarfer hanesyddol yw hwn, lle, er enghraifft, mae ysgolheigion yn ceisio deall goblygiadau ymarferol y deddfau yn Lefiticus i'r greadigaeth heb fod yn ddynol. Ar y llaw arall, fodd bynnag, mae hefyd yn ymarfer dychmygol, lle'r ydym yn cael ein hannog i weld cyfatebiaethau â'n harferion ni mewn ffermio a chynhyrchu bwyd.

Gan aros gyda'r Hen Destament/y Beibl Hebraeg am funud, gallwn sylwi ysgolheictod yn blodeuo ar le creadigaeth yn y *llynyddiaeth ddoethineb*. (Er mai Genesis yn amlach na pheidio yw'r llyfr i'w drafod mewn dadleuon am y creu, mae diwinyddiaeth Gristnogol bob amser wedi cael ei meddylfryd am y creu o lefydd eraill yn y Testamentau Hen a Newydd hefyd, ac mae'r llynyddiaeth ddoethineb yn arbennig o arwyddocaol). Mae ysgolheigion beiblaidd wedi edrych ar y disgrifiad o amrywiaeth ac arwahanrwydd syfrdanol y creu yn llyfr Job, er enghraifft - hanes sy'n rhoi'r ddynoliaeth yn ei lle yn bendant, fel yn Job penodau 38-41 (Bauckham, 2010). Mae diwinyddion yr Hen Destament hefyd wedi archwilio rôl delweddaeth o'r byd naturiol yn nyweddiadau'r Diarhebion. Un thema bwysig mewn dehongliad beiblaidd ecolegol yw un y *Sabbath*, pwysigrwydd cymryd amser i ymhyfrydu a mwynhau daioni'r greadigaeth, ac wrth wneud hynny sylwi ar y bygythiadau i'w ffyniant (Wirzba, 2006).

Rhai Tueddiadau mewn Eco-ddiwinyddiaeth

Eco-ddiwinyddiaeth: Safbwyntiau athrawiaethol

Yn ei fersiynau cynharach, roedd eco-ddiwinyddiaeth yn aml yn ymwneud ag archwilio goblygiadau *athrawiaeth y creu* i gael dealltwriaeth o urddas a gwerth y byd an-ddynol a chyfrif am gyfrifoldeb dyn tuag ato (Deane-Drummond, 2008). Ar yr un pryd, dechreuodd diwinyddion pwysig oedd yn ysgrifennu ar bwnc y creu gymryd materion ecolegol o ddifrif. Un llais amlwg yma oedd Jürgen Moltmann. Cafodd ei Ddarlithoedd Gifford yn 1984-1985 eu cyhoeddi fel *God in Creation: An Ecological Doctrine of Creation* (Moltmann, 1985).

Yn fwy diweddar, fodd bynnag, mae diwinyddion wedi dechrau ystyried mewn ffordd fwy cydunol arwyddocâd athrawiaethau eraill i'n syniadau am gyfrifoldeb ecolegol (Conradie, 2014; Northcott and Scott, 2014). Maent hefyd wedi rhoi mwy a mwy o feddwl ar yr effeithiau y gallai realiti newid hinsawdd a dirywiad amgylcheddol eu cael ar fynegi pob un o athrawiaethau clasurol dysgeidiaeth Gristnogol.

Enghraifft o ddiwinyddion yn ceisio gwneud athrawiaeth yn ymatebol i bryderon o'r fath fyddai'r cynigion cyfoes am 'ymgnawdoliad dwfn' – agwedd at *Gristoleg* sy'n pwysleisio natur gyfannol, hollgwmpasog Duw yn dod i mewn i greadigaeth drwy gymryd cnawd creadurol ym mherson Iesu Grist (Gregersen, 2015). Neu gallem feddwl am ffyrdd y mae athrawiaeth yr Ysbryd Glân (*ysbrydyddiaeth*) wedi cael ei fynegi, a oedd yn paratoi craffter yr Ysbryd yn iachau'r berthynas a ddifrodwyd rhwng creaduriaid, a gyda'r ddaear (Bergmann, 2005).

Un maes o athrawiaeth Gristnogol – neu ddiwinyddiaeth systematig, fel y'u gelwir weithiau – y dylanwadwyd arno'n arbennig gan faterion amgylcheddol fu *anthropoleg ddiwinyddol*. Mae'r pwnc

hwn yn archwilio o safbwynt Cristnogol y cwestiwn beth mae'n ei olygu i fod yn ddynol. Mae cwestiynau am beth sy'n gwneud dynion yn wahanol mewn perthynas â chreaduriaid eraill, a beth yw'n rhwymedigaethau ni tuag atynt a gweddill y greadigaeth, wedi dod yn fwy cymhleth ac yn fwy llwythog (Kelsey, 2009). Beth, er enghraifft, mae'n ei olygu i sôn am ddynoliaeth 'ar ddelw Duw', ac a yw'r syniad hwnnw'n cario gydag ef unrhyw beryglon moesegol arbennig, neu, yn fwy cadarnhaol, cyfrifoldebau (Wirzba, 2003)?

Yn olaf, gallem edrych ar ymdriniaethau o athrawiaeth *eschatoleg*, sy'n mynd i'r afael â chredoau Cristnogol am ddyfodol y byd a'i greaduriaid. Mae dehongliadau cyfoes yn aml yn arbennig o awyddus i danlinellu ac egluro'r addewidion ysgrythurol am 'nef newydd a *daear newydd*' (Datguddiad 21.1), yn darlunio gobaiith Cristnogol fel rhywbeth sy'n buddsoddi'n ddwfn yn adnewyddiad ac adferiad y byd hwn, yn hytrach nag yn chwilio am ddihangfa i fyd arall (Middleton, 2014). Mae ysgolheigion wedi ceisio tynnu llinellau eithaf uniongyrchol rhwng y math yma o gred mewn dealltwriaeth holistig o deyrnas Dduw a'r ymrwymiad Cristnogol i gadwraeth Natur a'r ymdrech am gyfiawnder cymdeithasol (Wright, 2011).

Diwinyddiaeth eco-gyfiawnder

O fewn diwinyddiaeth Gristnogol, mae'r ymdrech am gyfiawnder cymdeithasol wedi cael mynegiant arbennig o gryf yn yr ysgol o feddwl a elwir yn *ddiwinyddiaeth ryddhad*. Mae gwreiddiau hon yn America Ladin ac roedd yn ymateb i orthrwm llywodraethau anghyfiawn a'r profiad o dlodi diddiwedd. Ers hynny mae diwinyddiaeth ryddhad wedi cael pleidwyr mewn ystod eang o gyd-destunau gwahanol ledled y byd. Yn rhannol oherwydd bod pobl dlotaf y byd yn byw

Rhai Tueddiadau mewn Eco-ddiwinyddiaeth

mewn ardaloedd lle mae ecsploetio adnoddau naturiol yn rhemp ac effeithiau newid hinsawdd yn dod yn amlwg, mae diwinyddion rhyddhad wedi troi fwy a mwy at faterion ecolegol ochr yn ochr â'r materion sy'n bodoli'n barod. Enghraifft amlwg yma fyddai'r diwinydd o Frasil, Leonardo Boff, sy'n siarad am 'gri y ddaear' a 'chri y tlawd' (Boff, 1995, 1997).

Datblygiad arwyddocaol iawn arall, y gallwn ei grwpio gyda'r troi at faterion ecolegol o fewn diwinyddiaeth ryddhad, fu datblygu safbwyntiau *eco-ffeministaidd*. Mae'r term hwn yn ymdrin â set o feddylwyr gwahanol a nodweddir weithiau fel 'trydedd don' ffeministaeth (Eaton, 2005). Un rheswm fod y materion hyn yn dod at ei gilydd yw mai menywod o bob rhan o'r byd sy'n aml iawn wedi dwyn baich yr anghyfiawnder a achosir gan ddirywiad amgylcheddol a newid hinsawdd. Mae diwinyddion *eco-ffeministaidd* wedi gweithio'n greadigol i daclo'r heriau hyn, ar onglau amrywiol i feddwl Cristnogol traddodiadol. Yn fwy eang, mae Rosemary Radford Ruether, diwinydd ffeminist allweddol, wedi ceisio o safbwynt Catholig integreiddio agweddau o ddamcaniaeth Gaia (hanes y ddaear fel system) gydag ysbrydolrwydd sacramentaidd (Radford Ruether, 1992). Mae Mary Grey hefyd wedi ceisio hybu ysbrydolrwydd sy'n pwysleisio urddas y blaned a'r person dynol fel ei gilydd, yn ei hachos hi yn tynnu ar y weledigaeth feiblaidd o'r proffwyd Eiseia ac yn ei gyferbynnu â gwerthoedd prynwriaethol y diwylliant globaleiddio sydd ohoni (Grey, 2003).

Casgliad

Rydym wedi edrych yn fras ar dri maes eang o fyfyrddol diwinyddol sy'n cael eu ffurfio gan eu sylw at faterion amgylcheddol. Mae'n help i'w disgrifio fel tair ffrwd bendant. Ond, drwy adnabod a chyflwyno tueddiadau gwahanol mewn

eco-ddiwinyddiaeth fel hyn, nid wyf am roi'r argraff ein bod yn edrych ar safbwyntiau sydd o reidrwydd yn anghydnaws â'i gilydd. Byddai'n fwy cywir dweud ein bod yn delio â thueddiadau lle mae rhannau gwahanol diwinyddiaeth – gallem eu dosbarthu'n fras fel astudiaethau beiblaidd, athrawiaeth Gristnogol a diwinyddiaeth wleidyddol – yn eu ffyrdd disgyblaethol eu hunain yn mynd i'r afael â realiti'r argyfwng ecolegol ac yn ceisio ailffurfio eu dulliau yn sgil hynny. Ymhellach, tra bod elfennau o wahaniaeth ac anghytundeb yn sicr yn bodoli, mae'r tueddiadau hyn yn aml yn traws-beillio, ac mae'r maes yn gyffredinol yn tyfu'n gyflym.

Mae cryn dipyn o egni academiaidd o fewn maes eco-ddiwinyddiaeth. Ond nid ymarfer deallusol yn unig fu'r ymgysylltiad diwinyddol Cristnogol â moeseg amgylcheddol. Ochr yn ochr â'r ffrydiau meddwl hyn, ceir nifer o fudiadau o weithgaredd amgylcheddol Cristnogol, gyda mudiadau fel A Rocha, a chyrrff anllwydraethol (NGOs) Cristnogol yn cynnwys pryderon ecolegol ac anghyfiawnder hinsawdd fwy a mwy yn eu rhaglenni – fel, er enghraifft, CAFOD (elusen Gatholig), Cymorth Cristnogol (eciwmennaidd) a Tearfund (Protestannaidd efengylaidd).

Yn fwy cyffredinol hefyd, mae nifer o fynegiannau o weithgarwch amgylcheddol lle mae Cristnogion a phobl o grefyddau eraill yn chwarae rhan amlwg. Enghraifft o fudiad sydd wedi cael proffil uchel yn y blynyddoedd diwethaf yw 'Extinction Rebellion' ('XR'), a'r grŵp 'Christian Climate Action', sydd bellach yn cael ei gysylltu'n agos ag XR.

Nid yw'r berthynas rhwng eco-ddiwinyddiaeth academiaidd ac ymarfer Cristnogol bob dydd yn un gwbl syml. Mewn rhai enwadau, gall cynigion diwinyddion gael effaith eithaf amlwg ar

Rhai Tueddiadau mewn Eco-ddiwinyddiaeth

eiriad gweddiâu neu ddefodau gosod – gan arwain at wreiddio pryder am Natur neu anghyfiawnder ecolegol o fewn canol ffurfiant crefyddol, neu ar arferion buddsoddi sefydliadau eglwysig – gan arwain at ddadfuddsoddiad mewn cwmnïau sy'n gysylltiedig â thanwydd ffosil, er enghraifft. Mewn eraill, fodd bynnag, bydd y cwestiynau a godir gan eco-ddiwinyddiaeth yn dal i gael eu hystyried yn ymylol neu hyd yn oed yn wrthgyferbyniol i agweddau pwysicaf addoliad a bywyd Cristnogol.

Fel ym mhob agwedd o ddiwinyddiaeth, gall hidlo syniadau newydd o

ddiwinyddiaeth academiaidd i lawr i hunan-ddealltwriaeth ac ymarfer Cristnogion fod yn araf, ac mae ymarfer Cristnogion bob amser yn cael ei ffurfio gan nifer o ffactorau heblaw'r ddiwinyddiaeth ffurfiol a ysgrifennir gan ddiwinyddion. Mae hyn yn arbennig o amlwg mewn perthynas â materion ecolegol, lle mae pwysau gan ddiwylliant ehangach o safbwynt ffordd o fyw yn bodoli mewn rhyngweithiad cymhleth â'r disgwyliadau am yr hyn mae'n ei olygu i fyw'n ffyddlon fel crediniwr mewn byd sy'n cael ei ystyried yn rhodd dda gan Dduw.

Geirfa

dadfuddsoddiad (disinvestment): gwerthu buddsoddiadau neu fuddiannau busnes.

hermeniwtteg (hermeneutics): yn cael ei ddeall yn arferol fel gwyddor dehongli testunau.

holistig (holistic): trin rhywbeth yn ei gyfanrwydd, nid dim ond fel casgliad o rannau ar wahân.

cyrff anllywodraethol (NGOs): sefydliadau nad ydynt yn perthyn i'r llywodraeth.

Dolenni i'rhyngwrwyd

<http://arocha.org/en/> (A Rocha, mudiad amgylcheddol Cristnogol)

<https://www.becreaturekind.org/> (Cynllun sy'n trafod gydag eglwysi lles anifeiliaid sy'n cael eu ffermio)

<http://declarationtorreciudad.org/> (Datganiad Torreciudad Declaration, a ysbrydolwyd gan Laudato Si cylchlythyrol y Pab Ffransis a gyd-

lofnodwyd gan ddiwinyddion, arweinwyr crefyddol a gwyddonwyr amgylcheddol)

<http://fore.yale.edu> (Fforwm Prifysgol Yale ar Grefydd ac Ecoleg)

Pwyntiau trafod

1. Pa lyfrau o'r Beibl ydych chi'n credu fyddai o fwyaf o gymorth i dynnu sylw at faterion amgylcheddol, a pham?
2. I ba raddau y gall athrawiaethau Cristnogol gael eu hail-ysgrifennu i gynnwys materion ecolegol? Beth, os o gwbl, yw elfennau sefydlog athrawiaethau o'r fath?
3. Pa gysylltiadau allwch chi eu gweld rhwng pryder am gyfiawnder rhwng y rhywiau a phryder am gyfiawnder ecolegol?
4. Sut gallai Cristion ddadlau yn erbyn y farn fod pryder am Natur yn amherthnasol yn y bôn i gred, addoliad a bywyd Cristnogol?

Cyfeiriadaeth

- Bauckham, R. (2010). *The Bible and ecology: Rediscovering the community of creation*. Waco, Texas: Baylor University Press.
- Bergmann, S. (2005). *Creation set free: The Spirit as the liberator of Nature*. Grand Rapids, Michigan: Eerdmans.
- Boff, L. (1995). *Ecology and liberation*. Translated by John Cumming, Maryknoll, New York: Orbis.
- Boff, L. (1997). *Cry of the earth, Cry of the poor*. Translated by Philip Berryman, Maryknoll, New York: Orbis.
- Conradie, E., et al. (2014). *Christian faith and the earth: Current paths and emerging horizons in ecotheology*. London: T. & T. Clark.
- Davis, E. (2009). *Scripture, culture and agriculture: An agrarian reading of the Bible*. Cambridge: Cambridge University Press.
- Deane-Drummond, C. (2008). *Eco-theology*. London: Darton, Longman, and Todd.
- Eaton, H. (2005). *Introducing ecofeminist theologies*. London: Continuum.
- Gregersen, N.H. (2015). *Incarnation: On the scope and depth of Christian theology*. Minneapolis, Minnesota: Fortress.
- Grey, M. (2003). *Sacred longings: Eco-feminist theology and globalization*. London: SCM Press.
- Horrell, D. (2013). *The Bible and the environment: Towards a critical ecological biblical theology*. Durham: Acumen.
- Kelsey, D. (2009). *Eccentric existence: A theological anthropology*. Louisville, Kentucky: Westminster/John Knox.
- Northcott, M., & Scott, P. (Eds.) (2014). *Systematic theology and climate change: Ecumenical perspectives*. London and New York: Routledge.
- Middleton, R. (2014). *A new heaven and a new earth: Reclaiming biblical eschatology*. Grand Rapids, Michigan: Baker Academic.

Rhai Tueddiadau mewn Eco-ddiwinyddiaeth

Moltmann, J. (1985). *God in Creation: An ecological doctrine of creation*. Translated by Margaret Kohl, Gifford Lectures 1984-1985, London: SCM Press.

Radford Ruether, R. (1992). *Gaia and God: An ecofeminist theology of earth healing*. San Francisco: HarperSanFrancisco.

Village, A. (2019). Stewardship of Creation. *Challenging Religious Issues*, 15, 15-21.

Wirzba, N. (2003). *The paradise of God: Renewing religion in an ecological age*. Oxford: Oxford University Press.

Wirzba, N. (2006). *Living the Sabbath: Discovering the rhythms of rest and delight*. Grand Rapids, Michigan: Brazos.

Wright, T. (2011). *Surprised by hope*. London: SPCK

Mae Dr Samuel Tranter yn Gyfarwyddwr Astudiaethau Ôl-radd ac yn Ddarlithydd mewn Athrawiaeth a Moeseg yng Ngholeg St John's Durham. Mae'n gwasanaethu ar Bwyllgor y Gymdeithas Astudio Moeseg Gristnogol ac yn awdur y llyfr Oliver O'Donovan's Moral Theology: Tensions and Triumphs (Bloomsbury T & T Clark, 2020).